**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL

# CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

***10.30AM, DYDD IAU, 31 IONAWR, 2013**
***10.30AM, THURSDAY, 31 JANUARY, 2013**

*(*Cynhelir cyfarfod rhagarweiniol i'r aelodau yn **Ystafell Glyder Fach** am **10.00am** / *A pre-meeting will be held for members in **Ystafell Glyder Fach** at **10.00am**).*

Lleoliad / Location

***SIAMBR Y CYNGOR**
**SWYDDFA ARFON, PENRALLT,**
**CAERNARFON**

*(*Nodwch y lleoliad ogydd / *Please note venue)*

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**Eirian Roberts**

**(01286) 679018**

**maireirianroberts@gwynedd.gov.uk**

*(DOSBARTHWYD / DISTRIBUTED 25/01/13)*

# PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL
# CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE

## AELODAETH/MEMBERSHIP (18)

### Plaid Cymru (9)
Y Cynghorwyr / Councillors

Elwyn Edwards
Aled Evans
Selwyn Griffiths
Charles Wyn Jones
Dyfrig Jones
Dafydd Meurig
Michael Sol Owen
Mair Rowlands
Gareth Thomas

### Annibynnol / Independent (4)
Y Cynghorwyr / Councillors

Lesley Day
Trevor Edwards
Eryl Jones-Williams
Eirwyn Williams

### Llais Gwynedd (3)
Y Cynghorwyr / Councillors

Gweno Glyn
Simon Glyn
Jason Humphreys

### Llafur / Labour (1)
Y Cynghorydd / Councillor
Gwynfor Edwards

### Rhyddfrydwyr Democrataidd / Liberal Democrats (1)
Y Cynghorydd / Councillor
June Marshall

### Aelodau Ex-officio / Ex-officio Members
Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor / Chairman and Vice-Chairman of the Council

### Eraill a wahoddir / Others invited

Y Cynghorydd / Councillor John Wynn Jones - Aelod Cabinet Economi / Cabinet Member Economy (eitemau / items 5 + 7)
Y Cynghorydd / Councillor Peredur Jenkins – Aelod Cabinet Adnoddau / Cabinet Member Resources (eitem / item 6).

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr, 2012 fel rhai cywir (copi yma – papur glas).

*Noder – amcan yn unig yw'r amseroedd a nodir isod*

**5. POLISI CAFFAEL CYNALIADWY**
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd John Wynn Jones**

Ystyried adroddiad cynnydd yr Aelod Cabinet ar lwyddiannau'r Polisi Caffael Cynaliadwy ynghyd â meysydd i wella (copi yma – papur melyn).

*10.40am – 11.30am (50 munud)*

**6. YMCHWILIAD CRAFFU MEDDYLFRYD SYSTEMAU**
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Peredur Jenkins**

Ystyried adroddiad y Grŵp Ymchwiliad Craffu (copi yma – papur lelog).

*11.30am – 12.15pm (45 munud)*

**7. YR AGENDA WLEDIG**
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd John Wynn Jones**

Ystyried adroddiad y Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu ar sefydlu ymchwiliad craffu (copi yma – papur eog).

*12.15pm – 12.30pm (15 munud)*

# PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL, 13.12.12

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Dyfrig Jones (Is-gadeirydd yn cadeirio).

**Y Cynghorwyr:-** Gwynfor Edwards, Trevor Edwards, Aled Evans, Gweno Glyn, Selwyn Griffiths, Jason Humphreys, Charles Wyn Jones, Eryl Jones-Williams, Dafydd Meurig, Michael Sol Owen, Mair Rowlands ac Eirwyn Williams.

**Hefyd yn bresennol:** Gareth James (Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 3 isod:-**

Y Cynghorydd John Wynn Jones (Aelod Cabinet Economi);
Bethan Gritten (Gritten Management) ac Arwel Jones (YnNi Llŷn)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Lesley Day, Elwyn Edwards, Simon Glyn, June Marshall a Gareth Thomas.

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 2 Hydref, 2012 fel rhai cywir.

**3. YR AGENDA WLEDIG**
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd John Wynn Jones**

Gofynnwyd i'r pwyllgor adnabod y materion i ymchwilio iddynt a phenderfynu ar y ffordd orau o weithredu ar hynny.

(a) Derbyniwyd cyflwyniad gan Bethan Gritten, Gritten Management, ar Astudiaeth, a gomisiynwyd gan YnNi Llŷn, o Ddefnyddio Ynni yn Aberdaron, Botwnnog, Tudweiliog ac Enlli.

Eglurwyd bod yr astudiaeth yn enghraifft o ddarn o waith sy'n edrych ar un elfen o amddifadedd yng nghefn gwlad a'i bod gerbron y pwyllgor er gwybodaeth er mwyn rhoi syniadau i'r aelodau ynglŷn â sut i symud ymlaen â'r gwaith o graffu'r agenda wledig.

Diolchwyd i Bethan Gritten am ei chyflwyniad manwl a diddorol.

Yna rhoddodd Arwel Jones esboniad cryno o'r rhesymau dros gomisiynu'r gwaith gan egluro mai'r nod oedd casglu tystiolaeth o'r problemau y bu pobl yn sôn amdanynt ar lawr gwlad ers blynyddoedd.

(b) Rhoddwyd cyfle i'r aelodau holi Bethan Gritten ac Arwel Jones.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y sylwadau cyffredinol a ganlyn:-

- Bod y cyflwyniad yn adlewyrchu'r problemau sy'n gyffredin i bob ardal wledig.
- Y dylai pobl gael gostyngiad treth am orfod defnyddio cerbydau mewn ardaloedd gwledig.
- Y dylai'r Cyngor annog pobl i fanteisio ar gynlluniau sydd ar gael i'w helpu i leihau effaith eu biliau tanwydd, megis Nyth.
- Ei bod yn anodd ar bobl yn y canol, sy'n methu fforddio'r gost uchel o insiwleiddio eu tai, ond yn anghymwys i dderbyn grantiau.
- Bod angen cynorthwyo pobl i ostwng eu biliau tanwydd, e.e. drwy newid cyflenwyr, prynu trydan dros y we a pheidio talu gyda siec.
- Bod angen i ardaloedd gwledig feithrin yr agwedd o fod yn hunangynhaliol.
- Y gwelid manteision cadw'r boblogaeth yn sefydlog o safbwynt bod yn hunangynhaliol, ond na ddylid ymdrechu i gael mwy o bobl i mewn i'r ardaloedd gwledig oherwydd effaith hynny ar yr iaith Gymraeg.
- Nad oedd yn rhaid derbyn nad oes dyfodol i gefn gwlad.
- Yn hytrach na disgwyl i bobl deithio o gefn gwlad at y gwasanaethau, dylid mynd â'r gwasanaethau hynny at y bobl, e.e. fan yn mynd o gwmpas yn cyfuno nifer o wasanaethau. Dylid hefyd hwyluso mynediad pobl at wasanaethau drwy gynlluniau megis cynllun cludiant cymunedol 'O Ddrws i Ddrws' ym Mhen Llŷn.
- Bod rhaid gwneud popeth i gadw pobl ifanc yn yr ardaloedd gwledig.
- Bod llawer o henoed yn gadael yr ardaloedd gwledig oherwydd eu bod dros awr i ffwrdd o'r ysbyty lleol.
- Bod y problemau y cyfeirir atynt yn yr astudiaeth yn effeithio ar bawb, ond yn dwysau po bellaf mae pobl yn byw o'r canolfannau.

(c) Derbyniwyd cyflwyniad llafar gan y Cynghorydd Dyfrig Jones, yr Is-gadeirydd, yn crynhoi sylwadau Pwyllgor Ardal Arfon ar y mater. Nododd:-

- Bod y pwyllgor ardal yn gytûn bod tlodi tanwydd a thlodi trafnidiaeth yn fater o bryder ac yn fater o bwys a bod angen edrych yn fanylach ar yr her o fyw yng nghefn gwlad o gymharu â'r dref.
- Bod rhaid bod yn ofalus o safbwynt sut mae hyn yn ffitio i mewn gyda'r gwaith sy'n mynd rhagddo mewn rhannau eraill o'r Cyngor.
- Bod angen diffiniad o'r hyn a olygir gan 'wlad' a '*thref*' gan fod y ffordd mae pobl yn meddwl am wlad a thref yn cael ei lywio gan eu persbectif personol hwy.

Pwysleisiwyd mai'r nod yw sicrhau bod pawb yn y sir yn cael yr un cyfleoedd i ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor.

(ch) Derbyniwyd cyflwyniad llafar gan y Cynghorydd John Wynn Jones, Aelod Cabinet Economi, ar flaenoriaethau'r Agenda Wledig. Pwysleisiodd fod yr agenda wledig yn flaenoriaeth gan y Cabinet, ond bod rhaid sefydlu'r cyd-destun cywir gan fod yr agenda hwnnw yn gallu golygu rhywbeth gwahanol i unigolion gwahanol yn ôl eu sefyllfa. Yna manylodd ar wahanol brosiectau a mentrau'r Cyngor a chyrff eraill o safbwynt hybu'r agenda wledig a'r nod o sicrhau cymuned gynaliadwy. Cyfeiriodd yn benodol at:-

- Y Cynllun Datblygu ar y Cyd
- Gwaith Partneriaeth Amgylcheddol Gwynedd yn y Cynllun Tair Blynedd
- Gwynedd Werdd
- Gwynedd Ddigidol
- Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd

- Menter Eryri
- Ymgyrch Cadw'r Budd yn Lleol
- Cynlluniau Parcio am Ddim
- Ymgyrch Bywiogi Canol Trefi
- Cynlluniau Twristiaeth
- Gwaith Partneriaeth Economaidd Gwynedd
- Rhaglen Datblygu Gwledig

(d) Rhoddwyd cyfle i'r aelodau holi'r Aelod Cabinet.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y sylwadau cyffredinol a ganlyn:-

- Mewn ymateb i sylw'r Aelod Cabinet y gobeithid y byddai yna 'fibrespeed' digonol yn y rhan fwyaf o Wynedd erbyn tua mis Mawrth, nodwyd bod cyfrifoldeb ar BT i hysbysu pobl ynglŷn â'u rhaglen a gofynnwyd am gyflwyno cais i BT, drwy'r Cabinet, am wybodaeth ynglŷn â phryd mae band eang cyflym yn mynd i gyrraedd y gwahanol wardiau.
- Nodwyd pwysigrwydd rhoi profiadau da i ymwelwyr i'r ardal, e.e. toiledau safonol, ayb.
- Cyfeiriwyd at rai enghreifftiau penodol o ddiffyg gwasanaeth yn yr ardaloedd gwledig, megis gwasanaethau bws a gofal dementia.
- Nodwyd bod siopau'r stryd fawr dan anfantais gan fod cost yr unedau yn nhermau trethi busnes yn uwch nag ydyw i'r archfarchnadoedd mawr ar gyrion y trefi. Hefyd, 'roedd rhaid i gwsmeriaid y stryd fawr dalu am barcio tra bod modd i bobl barcio am ddim yn y canolfannau siopau. Mewn ymateb, nododd yr Aelod Cabinet fod Llywodraeth Cymru yn edrych ar drethi busnes ar hyn o bryd ac y byddai yna sesiwn arbennig o Gabinet y Cyngor i edrych ar yr holl gyfundrefn barcio.
- Nodwyd y deellid bod Cyngor Gwynedd yn dechrau gosod dirwyon o £70 am barcio hanner metr o ymyl y palmant a phenderfynwyd gofyn am ymateb yr Aelod Cabinet Amgylchedd i hyn.

**PENDERFYNWYD sefydlu'r agenda wledig fel pwnc ar gyfer ymchwiliad craffu a phenderfynu ar gylch gorchwyl yr ymchwiliad yn y Cyfarfod Paratoi nesaf ar 19 Rhagfyr.**

**4. DIWEDDARIAD AR YMCHWILIAD CRAFFU MEDDYLFRYD SYSTEMAU**
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Peredur Jenkins**

Cyflwynwyd – adroddiad cynnydd gan y Cynghorydd Dafydd Meurig, aelod o'r Grŵp Ymchwiliad, yn absenoldeb y Cynghorydd Gareth Thomas, Cadeirydd y Grŵp.

Nodwyd y bwriedid cyflwyno adroddiad terfynol y grŵp i gyfarfod nesaf y pwyllgor craffu ar 31 Ionawr.

Gofynnodd yr Is-gadeirydd i unrhyw aelodau a ddymunai fod yn rhan o'r ymchwiliad craffu nesaf gyflwyno eu henwau i'r Cadeirydd neu'r Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu ymlaen llaw fel y gellid penderfynu ar yr aelodaeth yng nghyfarfod Ionawr.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 12.40pm.

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **Pwyllgor Craffu Corfforaethol** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **31 Ionawr 2013** |
| **TEITL YR EITEM** | **Polisi Caffael Cynaliadwy** |
| **AELOD CABINET** | **Cyng. John Wynn Jones** |
| | |

## 1.0 Cyflwyniad

1.0 Ar gais y Pwyllgor Craffu, mae'r Adroddiad Cynnydd yma yn manylu ar lwyddiannau y Polisi Caffael Cynaliadwy hyd yn hyn ynghyd a meysydd i wella.

## 2.0 Cefndir

2.1 Mae strwythur caffael o fewn y Cyngor yn ddatganoledig, hynny yw, mae'r Uned Caffael Gorfforaethol yn darparu arweiniad polisi a throsolwg strategol o ran caffael, ond mae'r cyfrifoldeb am brynu yn aros gyda'r gwasanaethau.

2.2 Mabwysiadwyd y Polisi Caffael Cynaliadwy diweddaraf ym mis Ebrill 2011. Pwrpas y Polisi Caffael Cynaliadwy yw sicrhau bod gweithgareddau caffael yn cael eu cyflawni mewn ffordd gyfrifol a chynaliadwy a hefyd yn uchafu cyfleoedd i wneud y defnydd gorau bosib o wariant y Cyngor er mwyn gwella perfformiad economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol o fewn y Sir.

2.3 Drwy weithredu'r Polisi Caffael Cynaliadwy, mae'r Cyngor yn ceisio:

2.3.1 sicrhau bod gweithgareddau caffael yn cael eu cynnal mewn ffordd sydd yn galluogi'r cyflenwyr priodol, yn cynnwys busnesau bach a chanolig, cwmnïau preifat a'r trydydd sector i gystadlu am gytundebau'r cyngor.

2.3.2 Lleihau effaith amgylcheddol drwy well detholiad a defnydd o nwyddau, gwasanaethau a gwaith.

2.3.3 Creu amgylchedd sydd yn darparu cyfleoedd i uchafu'r buddion yn deillio o gynnwys a gweithredu meini prawf cymdeithasol o fewn gweithgareddau caffael.

2.3.4 Sicrhau bod asesiadau gwerth am arian yn cael eu seilio, lle'n briodol, ar gostau gydol oes.

2.4 Yn ymarferol, mae'r Polisi Caffael Cynaliadwy yn gofyn i Wasanaethau ymgymryd â'r camau gweithredu canlynol:-

- Cytundebau gyda gwerth £500k ac uwch - bod rhaid derbyn mewnbwn gan yr Uned Caffael Gorfforaethol gyda'r pwrpas o gyfrannu at adnabod cyfleoedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol , a chynnwys y cymalau perthnasol yn y cytundeb. Mae hyn yn cynnwys cwblhau'r Teclyn Caffael Cynaliadwy.

- Cytundebau gwerth £50k hyd at £500k – bod angen cwblhau rhestr gwirio cynaliadwyedd.

- Gweithgor Caffael Cynaliadwy - roedd targed i ddau gytundeb derbyn sylw gan y Gweithgor Caffael Cynaliadwy.

## 3.0 Gwariant

3.1 Gofynnodd y Pwyllgor Craffu am wybodaeth ynglŷn â'r nifer o gontractau sy'n cael eu gosod i gwmnïau o du allan i Gymru. Nid ydi'n bosib adrodd ar y nifer o gontractau sydd yn cael ei ddyfarnu i gwmnïau tu allan i Gymru, ond mae yn bosib adrodd ar wariant y Cyngor yn gyffredinol. Gweler y graffiau yn Atodiad 1 sydd yn dangos gwariant y Cyngor:-

- Yn lleol (o fewn Gwynedd) (atodiad 1a)
- Gyda Busnesau Bach a Chanolig (atodiad 1b)
- Yng Ngogledd Cymru (atodiad 1c)

3.2 Mae'r graffiau hefyd yn dangos perfformiad Cyngor Gwynedd yn erbyn Cynghorau eraill, a gellir gweld bod Cyngor Gwynedd yn perfformio yn dda yn gyffredinol.

## 4.0 Llwyddiannau hyd yma

4.1 Mae nifer o brosiectau gwerth dros £500k wedi dilyn y broses caffael fanwl sydd ei angen o dan y Polisi Caffael Cynaliadwy, yn cynnwys:

- Y Cytundeb Bwyd
- Ysgol Bro Dysynni
- Cynllun Adfywio Blaenau Ffestiniog
- Academi Hwylio
- Cefnogaeth rhieni a theulu
- Uwchraddio Siambr Dafydd Orwig a'r Llys
- Gwaith Cynnal a Chadw Cynlluniedig
- Lon Las Ogwen

4.2 Mae'r defnydd o'r Polisi Caffael Cynaliadwy wedi sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei roi i sut mae cytundebau yn cael ei strwythuro h.y. strategaethau lotio sydd yn annog cwmnïau llai i fidio, sut y gellir lleihau effaith amgylchedd ac os gellir gweithredu cymalau buddion cymdeithasol.

4.3 Hyd yma 5 cytundeb sydd wedi defnyddio cymalau buddion cymdeithasol, sef Cynllun Adfywio Blaenau Ffestiniog, Ysgol Bro Dysynni, Academi Hwylio, Siambr Dafydd Orwig a Phont Briwet. Yn ychwanegol, mae cytundeb adeiladu Ysgol Hendre wedi llwyddo i ennill buddion cymdeithasol hefyd. Dylid nodi bod cymalau buddion cymdeithasol dim yn berthnasol i bob contract ond maent yn addas ar gyfer cytundebau adeiladu yn arbennig.

4.4 Gweler gwybodaeth fanwl ynglŷn â'r buddion sydd wedi'u hennill hyd yma o Gynllun Adfywio Blaenau Ffestiniog ac Ysgol Hendre yn Atodiadau 2a a 2b.

4.5 Mae Gwerth Cymru, sef Uned Polisi Caffael y Llywodraeth, wedi datblygu'r Teclyn Buddion Cymdeithasol Cymreig i gynorthwyo gyda dadansoddi buddiannau yn deillio allan o gontractau penodol (h.y. contractau dros £2m). Mae'r teclyn yma yn cael ei gwblhau gan y Contractwr llwyddiannus ar ddiwedd y cytundeb. Y prif negeseuon yn deillio o Gynllun Adfywio Blaenau Ffestiniog yw:

- bod contract o werth £2.6m wedi creu buddsoddiad yn yr economi Cymreig a'r DU o £4.3m
- £1.1m wedi cael ei wario gyda busnesau Cymreig.

- bod busnesau bach a chanolig o fewn Gymru wedi ennill £514,637 gwerth o waith
- bod pobol Gymreig wedi derbyn incwm yn gyfartal i £443k.
- 3 person di-waith wedi derbyn gwaith am gyfnod y contract.
- 5 person wedi derbyn prentisiaeth.

## 5.0 Materion i'w gwella.

5.1 Mae perfformiad adrannol yn erbyn y Polisi Caffael Cynaliadwy yn cael ei fonitro gan yr Uned Caffael a'i adrodd i'r Aelod Cabinet a'r Penaethiaid Gwasanaeth yn chwarterol. Gweler mesuryddion perfformiad perthnasol hyd at chwarter 3, 2012/13 yn Atodiad 3.

5.2 Mae'r mesuryddion yn dangos bod 6 allan o 9 cytundeb wedi dilyn y proses gaffael manwl ar gyfer cytundebau gwerth dros £500k. Fodd bynnag, mae 3 gytundeb gwerth uchel wedi methu a dilyn y broses. Mae hyn yn bosib oherwydd bod y mesuryddion perfformiad yn ofyniad newydd eleni. Er gwybodaeth, mae perfformiad chwarter 3 wedi bod yn 100%.

5.3 Er bod mesuryddion perfformiad gyda chontractau dros £500k yn galonogol iawn, mae perfformiad ar gontractau o dan y lefel hon yn aneglur/ymddangos yn wael. O dan y lefel hon o wariant, rhaid i swyddogion caffael adrannol cwblhau rhestr wirio caffael cynaliadwy. Ychydig iawn o restri wirio sydd wedi cael eu cwblhau hyd yn hyn.

5.4 Yn amlwg, mae 'na le i wella perfformiad, yn enwedig gyda chytundebau o dan £500k a phosib bod hyn yn gyfle i ddefnyddio Gweithgor i afael ar y gwaith o adnabod y rhesymau pam mae rhai adrannau ddim yn cwrdd â gofynion y polisi.

## 6.0 Datblygiadau Eraill sydd yn berthnasol i Gaffael Cynaliadwy

### 6.1 Compact - SQuID

6.1.1 Fel rhan o'r Compact Lywodraeth Cymru, mae'r Cyngor wedi symud i fabwysiadu'r SQuID (Supplier Qualification Information Database). Mae'r SQuID yn holiadur cyn-gymhwyso safonol sydd i'w mabwysiadu ledled Cymru. Mae Cyngor Gwynedd yn cael ei ystyried gan Gwerth Cymru i fod yn flaenllaw o ran defnyddo SQuID yn enwedig wrth ddefnyddio ynghyd a dulliau tendro electronig.

6.1.2 Mae'r SQuID electronig yn caniatáu contractwyr i storio eu hatebion i gwestiynau cyn-gymhwyso safonol. Ar dendrau dilynol (ac yn enwedig tendrau electronig), mae eu hatebion yn cael eu llwytho yn awtomatig. Fel y gallwch ddychmygu, mae hyn yn arbed llawer iawn o amser ac ymdrech ar ran y prynwr a'r cyflenwr.

## 6.2 Compact – Cymalau Buddion Cymdeithasol

6.2.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan bod Llywodraeth leol i ddefnyddio cymalau Buddion Cymdeithasol mewn contractau sy'n werth mwy na £2 filiwn a lle gellir cyflawni budd i'r gymuned.

6.2.2 Yn amlwg o dan y Polisi Caffael Cynaliadwy, mae Cyngor Gwynedd wedi penderfynu lleihau'r trothwy yma i £500k. Felly, mae pob cytundeb gwerth £500k ac uwch yn ystyried defnydd o gymalau buddion cymdeithasol.

## 6.3 Compact – Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a Gweithio ar y Cyd

6.3.1 Yn ei gyfarfod 20 Tachwedd 2012, penderfynwyd y Cyngor i ymrwymo i ymuno a'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol. Yn ychwanegol at hyn, mae Cyngor Gwynedd dal yn ystyried cydweithio ar gaffael ar lefel rhanbarthol gyda Chynghorau Dinbych a Fflint.

6.3.2 Hefyd, cytunodd y Cabinet mewn cyfarfod ar 22 Ionawr 2013 i gefnogi sefydlu cytundeb fframwaith ar gyfer prosiectau adeiladwaith dros £4.35m ar gyfer rhaglen ysgolion 21ain ganrif, ac i gytuno i weithredu'r Strategaeth Caffael ar gyfer adeiladau eraill dros £4.35m ar yr amod bod defnydd Cyngor Gwynedd o'r fframwaith i'w adolygu achos wrth achos.

6.3.2 Bydd hyn yn golygu bod rhai cytundebau yn cael ei weithredu yn dilyn trefniadau cenedlaethol neu ranbarthol yn y dyfodol.

## 6.4 Gweithio gyda Phrifysgol Bangor - Peilot Caffael Gwerth Isel

6.4.1 Mae'r Uned Caffael Gorfforaethol yn gweithio mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Bangor ar ymarfer peilot gwerth caffael isel. Mae'r prosiect yma wedi codi allan o'r adroddiad "Rhwystrau i Gyfleodd Caffael, 2009" a ganfu fod sefydliadau llai yn eu cael yn anodd cael mynediad i gontractau gwerth is.

6.4.2 Mae'r peilot yn edrych ar ymarfer caffael sydd yn cael ei wneud gan yr Uned Cefnogi Busnes yn yr Adran Economi ac Adfywio.

6.4.3 Os yn llwyddiannus, gall y broses gaffael gwerth isel cael ei weithredu'n llawn o fewn y Cyngor yn ei gyfanrwydd.

## 7.0 Cefnogi Busnesau

7.1 Cynhaliwyd cyfarfod rhwng y Gweithgor Caffael Cynaliadwy a dau gwmni lleol ym mis Medi 2011 er mwyn adnabod gwendidau o fewn y proses caffael. Y prif awgrymiadau ar gyfer gwella oedd:

- Symleiddio'r proses cyn-gymhwyso.
- Sefydlu fframweithiau ar lefelau gwerth gwahanol er mwyn rhoi cyfle i gwmnïau llai.
- Bod yn ofalus wrth ddewis lefelau trosiant er mwyn sicrhau bod cwmnïau llai ddim yn cael eu cau allan o'r broses tendro.

7.2 Mewn ymateb i'r uchod, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu SQuID fel y ddogfen cyn-gymhwyso safonol. Mae'r Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru wedi ymgysylltu a'r farchnad er mwyn derbyn mewnbwn cwmnïau ar sut oedd fframwaith newydd am gael ei sefydlu. Mewn perthynas â'r lefelau trosiant, ac oherwydd defnydd SQuID, mae'r Cyngor yn rhoi llai o bwyslais ar lefelau trosiant ac yn edrych a'r gallu cwmnïau i wneud y gwaith.

7.3 Dull arall o wella'r siawns o gwmnïau i ennill busnes ydi cynnig dadbriffio cynhwysfawr i gynigwyr aflwyddiannus. Byddai hyn yn cynorthwyo cwmnïau i ddeall pam bod eu ceisiadau wedi bod yn aflwyddiannus ac yn eu galluogi i wella ceisiadau dilynol yn seiliedig ar y cyngor a roddwyd. Ystyrir bod y ddadbriffio a ddarperir gan swyddogion y Cyngor i gynigwyr yn annigonol.

7.4 Yn nhermau cyngor ac arweiniad allanol, mae hyn ar gael gan y Gwasanaethau Adolygu Tendrau yn Brifysgol Bangor. Mae'r gwasanaeth hwn yn dadansoddi tendrau blaenorol, yn nodi cryfderau a gwendidau. Hefyd maent yn darparu adborth adeiladol ac yn argymell sut i wella tendrau yn y dyfodol.

## 8.0 Y Ffordd Ymlaen

8.1 Fel rhan o'r broses datblygu cynllun strategol, cynhaliwyd sesiwn i drafod y maes yma gydag aelodau'r Cabinet ym mis Rhagfyr. Y prif negeseuon o ran y ffordd ymlaen oedd yr angen i:

- Ail-edrych ar drefniadau caffael o fewn y Cyngor er mwyn cysoni agweddau ac ymarfer ar draws Adrannau.
- Yr angen i gynnig adborth i gwmnïau sydd ddim yn llwyddiannus i ennill gwaith.
- I ail-edrych ar drothwyon tendro caffael.
- Yr angen i gefnogi busnesau er mwyn iddynt allu paratoi am dendro e.e. digon o rybudd o ba gytundebau bydd yn cael eu hysbysebu a phryd; a bod yn glir beth yn union sydd ei angen gan fusnesau.
- Yr angen am hyfforddiant penodol i swyddogion sydd yn caffael.


8.2 Bydd yr ystyriaethau yma, ynghyd ag adborth cyffredinol gan aelodau a swyddogion yn bwydo i mewn i gynllun strategol y Cyngor ar gyfer y dyfodol.


8.3 Er gwybodaeth, mae'r Aelod Cabinet Economi yn arwain ar faterion caffael ar y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Bydd yr Aelod Cabinet yn gallu cynnig arweiniad clir ar gyfer gwella a safoni prosesau caffael ar draws siroedd y Gogledd.


## 9.0 Argymhellion

9.1 Er mwyn cryfhau perfformiad a gwella canlyniadau'r Polisi Caffael Cynaliadwy, argymhellir bod y Pwyllgor Craffu yn:

- Cefnogi'r cynnydd hyd yma;
- Pwysleisio'r angen i Wasanaethau defnyddio'r gefnogaeth caffael sydd ar gael a chydymffurfio gyda'r polisi caffael cynaliadwy.
- Sefydlu Gweithgor i gynnal ymchwiliad craffu i'r perfformiad ar gytundebau o dan £500k, adnabod ymarfer da ac argymell gwelliannau.


ATODIAD 1 A
Gwariant o fewn Ffiniau'r Sir (Gwariant Lleol) % (10/11)
Canran
0
5
10
15
20
25
30
35
40
45
50
Cyngor 1
Cyngor 2
Cyngor 3
Gwynedd (Apr 10-Mar 11)
Cyngor 4
Cyngor 5
Cyngor 6
Cyngor 7
Cyngor 8
Cyngor 9
Cyngor 10
Cyngor 11
Cyngor 12
Cyngor 13
Cyngor 14
Cyngor 15
Cyngor 16
Cyngor 17
Cyngor 18
Cyngor 19
Cyngor 20
Cyngor 21
Cyngor


ATODIAD 1 B
Gwariant gyda Busnesau Bach a Chanolig (%) 2010/11
80.0
70.0
60.0
50.0
40.0
30.0
20.0
10.0
0.0
Canran
Cyngor 1
Cyngor 3
Gwynedd (Apr 10-Mar 11)
Cyngor 11
Cyngor 21
Cyngor 10
Cyngor 6
Cyngor 19
Cyngor 15
Cyngor 12
Cyngor 17
Cyngor 7
Cyngor 4
Cyngor 5
Cyngor 9
Cyngor 2
Cyngor 16
Cyngor 14
Cyngor 8
Cyngor 13
Cyngor 20
Cyngor 18
Cyngor


ATODIAD 1 C
Gwariant o fewn Gogledd Cymru - 2010/11
%
60
50
40
30
20
10
0
55.67
49.6
42.31
41.6
35.1
34.33
Gwynedd
Cyngor A
Cyngor B
Cyngor C
Cyngor CH
Cyngor D
Cyngor

**ATODIAD 2a**

**Prosiect Adfywio Blaenau Ffestiniog**
**Papur Briffio Buddion Cymdeithasol**

Cychwynnodd Cynllun Adfywio Blaenau Ffestiniog yn ôl yn 2007 gyda Chyngor Gwynedd yn gweithio mewn partneriaeth â Blaenau Ymlaen, grŵp cymdeithasol lleol, ynghyd â Llywodraeth Cymru.

Adnabu'r ymchwil a ymgymerwyd ar y pryd yn yr ardal y problemau a ganlyn:

- 71% o fusnesau yn teimlo bod Blaenau yn lleoliad gwael ar gyfer manwerthu
- Canran uchel o unedau gwag
- Diffyg yn y cynnig o siopau
- Niferoedd mawr o bobl ifanc yn gadael y dref
- Yr angen i wneud y mwyaf o'r twristiaid sy'n ymweld â'r dref drwy gynyddu'r refeniw a ddaw i mewn i'r dref

Roedd yn hanfodol cael ymgysylltiad cryf â'r gymuned, yn wir, aeth y prosiect tu hwnt i ymgysylltiad gan gynnwys Blaenau Ymlaen fel rhan o dîm darparu'r prosiect. Bu ymgynghoriad lleol eang o ran y pethau roedd pobl leol yn dymuno eu gweld fel deilliant i'r cynllun.

Gweledigaeth y Prosiect oedd *"creu lle i fyw a gweithio ac ymweld ag o a fydd yn byrlymu o fywyd ac egni, yn adnabyddus am ddiwylliant, celf a chymuned glos, ynghyd ag amgylchedd godidog. Bydd y dref yn adeiladu ar y nodweddion unigryw hyn mewn modd cynaliadwy er budd adfywio economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol."*

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon, roedd y cynllun angen cydweithrediad nifer o fudd-ddeiliaid, gan gynnwys y Siambr Fasnach, busnesau lleol, y Cyngor Tref, y preswylwyr a'r arlunydd lleol a benodwyd i greu gwaith celf o lechen er mwyn adlewyrchu cysylltiadau agos Blaenau Ffestiniog â'r diwydiant llechi.

Sicrhawyd cyllid o £4.4m ar gyfer y prosiect yn ei gyfanrwydd a neilltuwyd £2m i'r gwaith adeiladu. Cychwynnodd y gwaith adeiladu ym mis Hydref 2011 a disgwylir y bydd wedi ei orffen erbyn mis Hydref 2012. Yma gwnaed camau breision o ran cynnwys buddion cymunedol yn y broses tendro gyda chymysgedd o rai creiddiol a rhai heb fod yn greiddiol.

O ganlyniad, llwyddwyd i gael y buddion a ganlyn:-

- Cynhaliwyd digwyddiad Cyfarfod y Prynwr i hyrwyddo'r cyfleoedd tendro ar gyfer cwmnïau lleol.
- Cynhaliwyd digwyddiad Cyfarfod y Contractwr er mwyn hybu cyfleoedd i isgontractwyr lleol.
- Dau Lwybr Prentisiaeth yn cychwyn yr wythnos yn dechrau ar 25 Mehefin am gyfnod o bum wythnos, y ddau o Goleg Llandrillo, gyda dau leoliad arall i ddod cyn cwblhau'r cynllun.
- Penodwyd person di-waith ar gynllun Prosiect y Farchnad Lafur Ganolradd gan yr arlunydd a benodwyd i'r prosiect gyda chefnogaeth Cyngor Gwynedd.
- Lleoliad yn cael ei roi i berson ifanc lleol fel rhan o'i gymhwyster HND.
- Y prif gontractwr yn penodi person ifanc dros fisoedd yr haf ar brofiad gwaith a bydd hi'n cael ei chadw gan y cwmni i weithio ar gontractau eraill.
- Cynhaliwyd nifer o weithdai gydag ysgolion yr ardal er mwyn datblygu dealltwriaeth o'r gyrfaoedd o fewn y diwydiant adeiladu.
- Cyfraniad o £200 tuag at ddigwyddiad 'Blaenau yn ei Blodau' yn 2012.
- Ailddefnyddio deunyddiau ar y safle ar gyfer prosiectau cymunedol, gan gynnwys cyfrannu biniau, meinciau ac offer i'r Clwb Rygbi.
- Y prif gontractwr i gwblhau'r teclyn mesur buddion cymunedol Gwerth Cymru er mwyn cofnodi'r holl fuddion a lwyddwyd i'w cyflawni.

Balfour Beatty Civil Engineering · CAPITA SYMONDS · HOWARDBOWCOTT · ERDF · Cyngor Gwynedd Council · Llywodraeth Cymru Welsh Government · Blaenau Ymlaen

- Ymwelodd dau grŵp o Ysgol Ardudwy â’r safle pan osodwyd rhannau o’r pileri llechen ar 27 Mehefin, 2012.
- Bu Steve Jones a Llinos Owen yn cynorthwyo Sgiliau Adeiladu a Gyrfa Cymru fel llysgenhadon adeiladu yn nigwyddiad Ice Bridge yn Ysgol Eifionydd, Porthmadog ar 11 Gorffennaf, 2012.
- Rhoddwyd cyflwyniadau Iechyd a Diogelwch yn Ysgol Maenofferen ac Ysgol Tanygrisiau ar 11 Gorffennaf i dros 250 o ddisgyblion gan Kevin Griffiths a Peter Hanson, Rheolwr AGID.
- Roedd Rhys Davies wedi cymryd cynorthwyydd peirianneg (HND) tan ddiwedd mis Gorffennaf a chafodd ei drosglwyddo i Brosiect Gelligemlyn ble y cafodd swydd peiriannydd cynorthwyol barhaol.

Mae hon yn stori o wir lwyddiant i Gyngor Gwynedd a’r cynllun cyntaf i gynnwys buddion cymunedol yn ffurfiol. Dylid cymeradwyo pob un sy’n gysylltiedig â’r cynllun am eu gwaith caled, eu hymroddiad a’u hymrwymiad i’r achos.

ATODIAD 2b

# Crynodeb o’r Buddion Cymunedol a gyflawnwyd gyda Phrosiect Adeiladu Ysgol yr Hendre


Cleient: Cyngor Gwynedd


Prif Gontractwr: Wynne Construction, Bodelwyddan Sir Ddinbych
[Buddion Cymunedol heb fod yn graidd mewn contract]

Wedi’i gwblhau ym mis Chwefror 2012

| | |
|---|---|
| Gwerth y Contract | £7,443,265 |
| Swm sy’n mynd i’r prif gontractwr yng Nghymru | £7,443,265 |
| Swm o’r prif gontract a wariwyd ar gyflenwyr yng Nghymru | £4,943,212 |
| Swm o’r prif gontract a wariwyd ar gyflogaeth uniongyrchol pobl sy’n byw yng Nghymru | £959,592 |
| Cyfraniadau ariannol gan gontractwyr i’r gymuned leol | £3,138 |
| Gwaith o fath arall a wnaed gan y contractwr ar gyfer y gymuned leol | £2,600 |
| Nifer o brentisiaid sy’n gweithio ar y safle | 5 |
| Nifer o wythnosau prentisiaeth | 56 |

Canran yr wythnosau o waith ar y safle, a ddadansoddwyd yn ôl lleoliad cartref y gweithiwr






# Lleoliad daearyddol contractwyr

| Cylchlythyrau a Buddsoddiad Lleol | Rhyngweithiadau Addysg | Rhyngweithiadau Cymunedol | Lleoliadau Hyfforddai |
|---|---|---|---|
| **1500** o gylchlythyrau wedi'u hanfon i **500** o gartrefi<br><br>**79%** wariant y prosiect yng Nghymru<br><br>**92%** o wariant y prosiect ar fusnesau bach a chanolig yng Nghymru<br><br>**83%** o gyflenwad llafur mewn siroedd yng ngogledd Cymru. | **15** taith o amgylch y safle ac ymweliadau gan ddisgyblion a myfyrwyr y colegau lleol | **12** rhyngweithiadau cymunedol, seremoni torri tywarchen, dyddiau agored cymunedol, teithiau safle i rieni **£3,137** o nawdd ar gyfer offer a chitiau tîm ar gyfer timau pêl-droed a phêl-fasged ac offer garddio ar gyfer canolfannau a gerddi cymunedol lleol. | **5** prentisiaeth wedi dechrau ac wedi cwblhau yn ystod y prosiect.<br><br>**6** NVQs wedi dechrau ac wedi cwblhau yn ystod y prosiect. |

**MESURYDDION PERFFORMIAD**
**CHWARTER 3 - 01 Ebrill 2012 – 31 Rhagfyr 2012**

| Cyf: | Disgrifiad | Targed | Perfformiad i fyny at Chwarter 3 | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|
| | **Caffael Cynaliadwy** | | | |
| **A Caff02** | % o gytundebau newydd (dros £500k) sydd cyd-fynd a'r Polisi Caffael Cynaliadwy (defnyddio'r Teclyn Caffael Cynaliadwy). | Sefydlu gwaelodlin | 66% | 6 allan o 9 wedi ei gwblhau. |
| **A Caff03** | % o gytundebau newydd (dros £50k ac o dan £500k sydd cyd-fynd a'r Polisi Caffael Cynaliadwy (defnyddio'r rhestri gwirio caffael cynaliadwy). | Sefydlu gwaelodlin | 14% | 97 cytundeb wedi'i gwblhau gyda 32 yn derbyn eithriad tra mae cytundeb fframwaith yn cael ei sefydlu.<br><br>Felly 9 allan o 65 |
| U Caff05 | % o gytundebau newydd sydd wedi defnyddio'r SQuID. | Sefydlu gwaelodlin | 28% | 92 cytundeb perthnasol gyda 32 yn derbyn eithriad tra mae cytundeb fframwaith yn cael ei sefydlu.<br><br>Felly 17 allan o 60 |

**MESURYDDION PERFFORMIAD BLYNYDDOL – 2011/12**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| U Caff06a | % o wariant gyda busnesau bach a chanolig.<br>- Gwariant gyda busnesau bach a chanolig yng Nghymru | Er gwyb | 2011/12 = 52.6% (-1.6%) | Ffigyrau mewn coch yn dangos y gwahaniaeth yn cymharu â 2010/11. |
| U Caff06b | % o wariant gyda busnesau bach a chanolig.<br>- Gwariant gyda busnesau bach a chanolig yng Ngwynedd. | Er gwyb. | 2011/12 = 35.7% (+3.2%) | |
| Newydd | % o wariant gyda busnesau yng Nghymru | Er gwyb. | 2011/12 = 65.35% (-0.61%) | |
| Newydd | % o wariant gyda busnesau yng Ngogledd Cymru | Er gwyb. | 2011/12 = 52.56% (-3.1%) | |
| Newydd | % o wariant gyda busnesau yng Ngwynedd | Er gwyb. | 2011/12 = 38.55% (+2.91%) | |

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **31 IONAWR 2013** |
| **TEITL YR EITEM** | **YMCHWILIAD CRAFFU<br>MEDDYLFRYD SYSTEMAU** |
| **CADEIRYDD YR YMCHWILIAD** | **CYNGHORYDD GARETH THOMAS** |
| **AELOD CABINET** | **CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS** |
| **PWRPAS** | **I YSTYRIED ADRODDIAD YR YMCHWILIAD** |
| | |

# Adroddiad Ymchwiliad Craffu

# Meddylfryd Systemau

**<u>Aelodau'r Ymchwiliad</u>**
**Cynghorydd Lesley Day**
**Cynghorydd Trefor Edwards**
**Cynghorydd Jason Humphreys**
**Cynghorydd Dafydd Meurig**
**Cynghorydd June Marshall**
**Cynghorydd Gareth Thomas (Cadeirydd)**

**<u>Swyddogion</u>**
**Gareth James (Swyddog Arweiniol)**
**Ann Roberts (Swyddog Cefnogol)**
**Eirian Roberts (Swyddog Cefnogol)**

**Cyngor Gwynedd**
**Stryd y Jêl,**
**Caernarfon,**
**Gwynedd**
**LL55 1SH**

**Ionawr 2013**

Cynnwys


Cyflwyniad………………………………………………….3

Crynodeb

A Gweithgaredd yr Ymchwiliad……………………….3

B Prif Ganfyddiadau…………………………………3/4

C Prif Argymhellion i'r Aelod Cabinet…………………4

1 CYD-DESTUN A PHWRPAS YR YMCHWILIAD

Cyd-destun……………………………………..5

Cyd-destun ehangach…………………………..5/6

Pwrpas yr Ymchwiliad Craffu……………………6

2 PRIF WEITHGAREDD YR YMCHWILIAD……7/8

3 PRIF SYLWADAU

Egwyddor Sylfaenol………………………………8

Ymwybyddiaeth o'r Egwyddor…………………8/9

Gweithredu'r Egwyddor Sylfaenol…………….9/10

4 YR YMGYNGHORWYR………………………10/11

5 CAMAU'R DULL VANGUARD

Gwirio, Cynllunio, Gweithredu…………………11

Pwrpas……………………………………………12

Natur y Galw……………………………………12-14

Gallu……………………………………………..14/15

*Flow* ……………………………………………..16

Amodau'r System………………………………16/17

Cynllunio a Gweithredu…………………………18

6 PRIF GANFYDDIADAU'R YMCHWILIAD…….18/19

7 PRIF ARGYMHELLION

A CHYFLEOEDD I WELLA……………………19/22

Cyflwyniad

Cyflwynir yn yr adroddiad yma y prif faterion a amlygwyd gan Ymchwiliad Craffu i Feddylfryd Systemau mewn dau gynllun peilot a gynhaliwyd yn ardal Arfon er ystyriaeth yr Aelod Cabinet Adnoddau.

Fe sefydlwyd yr Ymchwiliad gan y Pwyllgor Craffu Corfforaethol ar 19 Gorffennaf 2012, ac fe gyflwynir yr Adroddiad yma i sylw'r Pwyllgor Craffu heddiw (31 Ionawr 2013).

Sefydlwyd yr Ymchwiliad i geisio ateb y cwestiynau yma:

a) Beth oedd effaith y ddau gynllun peilot yn y Gwasanaeth Cynnal a Chadw (Tîm Ymyrraeth) a'r Gwasanaeth Digartrefedd ar bobl Gwynedd?
b) A ydyw wedi gwella gwasanaeth i ddefnyddwyr?
c) A ydyw wedi gwireddu arbediad?

Crynodeb

A Gweithgaredd yr Ymchwiliad

i. Roedd prif waith yr ymchwiliad yn ymwneud â chasglu gwybodaeth gan gwsmeriaid a phartneriaid y ddau wasanaeth – Digartrefedd a Chynnal a Chadw Adeiladau yn Ardal Arfon.
ii. Er bod nifer y cwsmeriaid a phartneriaid a gyfwelwyd â hwy yn gymharol fach, mae yma negeseuon eithaf clir a chyson mewn rhai meysydd er nad oes unfrydedd yn cael ei gyfleu bob tro.
iii. Fe gyfwelwyd â rheolwyr canolfannau hamdden, cartrefi gofal a phum ysgol ar gyfer y prosiect cynnal a chadw; a'r pedwar sefydliad allanol ac un gwasanaeth mewnol perthnasol o safbwynt digartrefedd yn yr ardal.
iv. Holwyd y budd-ddeiliaid mewnol perthnasol sef pum Aelod Cabinet, dau Gyfarwyddwr, dau Bennaeth Adran, swyddogion gweithredol y cynllun a'r Ymgynghorwyr allanol.
v. Mae aelodau'r ymchwiliad yn hyderus bod yr adroddiad yn rhoi dehongliad cytbwys ac annibynnol o'r ddau gynllun prosiect yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd.
vi. Gwnaed dadansoddiad o'r wybodaeth a dderbyniwyd yn unol â methodoleg y Cynllun Vanguard

B Prif Ganfyddiad

vii. Mae aelodau'r Ymchwiliad o'r farn bod angen ymestyn Meddylfryd Systemau ar draws y Cyngor.
viii. Er bod peth tystiolaeth yn dangos bod peth mewnbwn pwrpasol a gwerthfawr gan nifer o swyddogion, ein prif bryder yw nad oes tystiolaeth glir bod perchnogaeth ddigonol ar y lefel uchaf.
ix. Rydym serch hynny'n ystyried bod gwerth rhoi un cynnig arall ar ddelio gyda'r hyn er mwyn grymuso swyddogion i gyflawni'n effeithiol.

x. Mae potensial go iawn yn yr arddull meddylfryd systemau i wella gwasanaethau i'n cwsmeriaid ac o ganlyniad rydym yn argymell i'r Aelod Cabinet y dylid datblygu hyn yn ystod oes y Cyngor yma.

C Prif Argymhellion i'r Aelod Cabinet

xi. Gofynnir i'r Aelod Cabinet roi ystyriaeth i'r argymhellion yma:

**Argymhelliad 1**
Mae aelodau'r Ymchwiliad yn argymell ein bod yn ymestyn Meddylfryd Systemau ar draws y Cyngor

**Argymhelliad 2**
Sicrhau dealltwriaeth drwyadl yr Aelodau Cabinet ac Uwch Reolwyr o egwyddorion Meddylfryd Systemau er mwyn gwireddu'r potensial i ail-gynllunio gwasanaethau'r Cyngor er budd y cwsmer

**Argymhelliad 3**
Darparu cefnogaeth lawn i gynnal y 'day job' tra bo'r swyddogion yn gweithio ar gynllun meddylfryd systemau.

**Argymhelliad 4**
Datblygu'r cynllun ar draws y Cyngor trwy daro balans rhwng gwneud y gwaith yn fewnol a chael mewnbwn allanol ac annibynnol yn ôl yr angen.

**Argymhelliad 5**
Bod yr wybodaeth a gafwyd gan y cwsmeriaid a'r partneriaid yn cael ei ystyried yn drylwyr er mwyn asesu natur y galw a gwir anghenion y cwsmer.

**Argymhelliad 6**
Bod y mesuryddion priodol yn cael eu hystyried yn ofalus er mwyn medru asesu llwyddiannau a phroblemau gyda gweithredu'r cynllun ar draws y Cyngor gan adrodd ar unrhyw faterion o bryder i'r Cabinet.

**Argymhelliad 7**
Mae'r broses hyd yn hyn wedi bod yn rhy araf. Mae'n hanfodol sicrhau bod y gwaith yn mynd rhagddo yn gyflymach yn y dyfodol.

**Argymhelliad 8**
Bod gwaith yn cael ei wneud ar fyrder i asesu costau'r cynllun er mwyn adnabod beth yw maint y gwariant ac unrhyw arbedion sydd wedi deillio ohono hyd yn hyn ac i ystyried tafluniad dros gyfnod oes y Cyngor yma.

1 CYD-DESTUN A PHWRPAS YR YMCHWILIAD

Cyd-destun

1.1 Cyflwynir yn yr adroddiad yma y prif faterion a amlygwyd gan Ymchwiliad Craffu i Feddylfryd Systemau mewn dau gynllun peilot yn Ardal Arfon er ystyriaeth yr Aelod Cabinet Adnoddau.

1.2 Mae Meddylfryd Systemau'n seiliedig ar y dybiaeth bod ymdrechion arferol i **wella diwylliant sefydliadau** yn y gorffennol wedi bod yn aflwyddiannus a bod Meddylfryd Systemau'n faniffesto am ffordd well. Defnyddiwyd y Dull Vanguard (John Seddon) fel sylfaen ar gyfer y ddau brosiect.

1.3 Mae'r Dull Vanguard yn cael ei ddefnyddio gan sefydliadau i newid y cynllunio a'r rheolaeth o waith. Y bwriad yw symud o drefniant lle bo'r rheoli yn digwydd drwy orchmynion o'r 'top' i lawr (command and control); gan ddefnyddio yn ei le arddull lle bo'r sefydliad yn rhoi blaenoriaeth i gynnal systemau sy'n grymuso swyddogion er mwyn cyflawni anghenion y cwsmer (systems approach).

1.4 Yn hyn o beth fe nodwyd droeon yn ystod yr ymchwiliad gan ymarferwyr ac ymchwilwyr mai mater o 'synnwyr cyffredin' yw gweithredu Meddylfryd Systemau'n llwyddiannus!

1.5 Un o'r negeseuon brwd a gafwyd gan yr ymarferwyr yn y ddau wasanaeth oedd ei fod yn anelu at 'system di-bapur'. Er i ni geisio cadw hyd yr adroddiad yma'n gryno, rydym yn ymddiheuro bod y cynnwys ychydig yn hirach na'r bwriad gan dynnu eich sylw at y prif ganfyddiadau ac argymhellion.

1.6 Rydym hefyd wedi ceisio cadw'r iaith mor ddi-jargon â phosibl yn unol ag arferion craffu da, ond wedi methu mewn ambell i sefyllfa. Unwaith eto, rydym yn ymddiheurio am hyn rhagblaen.

1.7 Yn ogystal, er ein bod wedi cynnwys yr hyn sydd wedi ein taro fel y prif faterion yn yr adroddiad, rydym wedi derbyn amryw sylwadau eraill nad sydd wed'u cyfarch yn llawn yn yr adroddiad er mwyn canolbwyntio ar yr elfennau pwysicaf.

Cyd-destun ehangach

1.8 Mae adroddiad yr Athro Zoe Radnor a'r Dr Ann Esain o Ysgol Fusnes Caerdydd i Gyngor Castell Nedd Port Talbot (Evaluation Report on the Impact of Service Improvement Activities at Neath Port Talbot County Borough Council – 2012) ar weithgaredd y

Cyngor ym maes meddylfryd systemau yn nodi hyn wrth gloi'r adroddiad :

*The approach taken by NPT (Neath Port Talbot) has shown that with improvement approaches such as systems thinking and lean it is possible to become more efficient. However, in order to develop further – to become more effective delivering appropriate services at the point of need – there may be need for some of the fundamentals of the system to be challenged. This would mean change in policy and approach from within Welsh Government as well as NPT. For example, considering system changes which allow improvement and audit to be more aligned, driving the delivery of services in terms of service dominant logic and not product or policy dominated (Osborne et al, 2013) and, engaging the citizen in co-production.*

Mae hyn yn ddweud mawr!

Pwrpas yr Ymchwiliad Craffu

1.9 Sefydlwyd Ymchwiliad Craffu i geisio ateb y cwestiynau yma:

a) **Beth oedd effaith** y ddau gynllun peilot yn Gwasanaethau Cynnal a Chadw Adeiladau (Tîm Ymyrraeth) a'r Gwasanaeth Digartrefedd **ar bobl Gwynedd**
b) A ydyw wedi **gwella gwasanaeth i ddefnyddwyr?**
c) A ydyw wedi gwireddu **arbediad?**

1.10 Fe sefydlwyd yr Ymchwiliad gan y Pwyllgor Craffu Corfforaethol ar 19 Gorffennaf 2012 ac fe gyflwynir yr Adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol ar 31 Ionawr 2013

1.11 Daeth yn amlwg yn fuan nad oedd cyfarch y gofyn yn 1.9 uchod yn llawn o fewn cyfnod yr Ymchwiliad yn bosibl, ac mai yn rhannol yn unig y llwyddwyd i wneud hyn.

1.12 Serch hynny, o ystyried yr adnoddau cyfyngedig o safbwynt amser a chapasiti yr aelodau a'r swyddogion, rydym o'r farn bod yr argymhellion a nodir yn yr adroddiad yn deilwng i'w hystyried yn ofalus gan yr Aelod Cabinet wrth ystyried y ffordd ymlaen i feddylfryd systemau yng Nghyngor Gwynedd.

1.13 Yr hyn a geir yn yr adroddiad yma a'r atodiadau yw manylion am y sylwadau a gafwyd gan y defnyddwyr gwasanaeth, partneriaid, aelodau arweiniol, uwch reolwyr a'r swyddogion gweithredol ynghyd â dadansoddiad a barn aelodau'r ymchwiliad.

1.14 Mae'n ddymuniad gan yr aelodau a swyddogion yr ymchwiliad ddiolch i bawb am eu cydweithrediad parod a mewnbwn gwerthfawr i'r Ymchwiliad gan gynnwys aelodau a swyddogion y Cyngor a'r holl gyrff allanol.

2 PRIF WEITHGAREDD YR YMCHWILIAD

Gorffennaf 2012

2.1 Fe benodwyd chwe aelod o'r Pwyllgor Craffu i arwain yr ymchwiliad gydag un swyddog arweiniol a dau swyddog cefnogol o Adran Strategol a Gwella.

Awst 2012

2.2 Cyn cychwyn ar yr ymchwiliad fe gynhaliwyd cyfres o sgyrsiau a chyfarfodydd anffurfiol rhwng swyddogion er mwyn cael gwybodaeth cefndirol ac fe fynychodd dau o'r swyddogion gyflwyniad gan John Seddon ar y Dull Vanguard.

Medi 2012

2.3 Cafwyd Cyflwyniad gan yr Aelod Cabinet Adnoddau a'r Cyfarwyddwr a oedd yn gyfrifol am gomisiynu'r ddau gynllun peilot a chafwyd ar ddeall mai'r amcan oedd i weld beth oedd gwerth meddylfryd systemau mewn dau wasanaeth gwahanol o fewn y Cyngor. Yna i ystyried ehangu'r ymarfer ar draws y Cyngor neu beidio.

2.4 Lluniwyd rhaglen waith fanwl yn cynnwys cyfres o gwestiynau i'w gwyntyllu gyda'r swyddogion a oedd yn gweithredu'r ddau gynllun peilot a threfnwyd y cyfarfodydd rhwng aelodau a swyddogion yr ymchwiliad a'r swyddogion gweithredol.(Gweler Atodiad)

Hydref/Tachwedd 2012

2.5 Cynnal y cyfarfodydd gyda swyddogion y ddau gynllun peilot

2.6 Ystyried a dadansoddi'r sylwadau a wnaed gan y swyddogion gweithredol

2.7 Trefnu a chynnal ymweliadau rhwng aelodau a swyddogion yr ymchwiliad a defnyddwyr gwasanaethau a phartneriaid y ddau beilot. Mae angen nodi fan hyn mai'r defnyddwyr a gyfwelwyd â hwy oedd swyddogion a rheolwyr safle a'r cyrff allanol a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ac nid y 'defnyddiwr yn y stryd' (end user). Ni chyfwelwyd â bobl digartref.

Rhagfyr 2012

2.8 Cynnal yr ymweliadau

2.9 Dadansoddi'r ymweliadau

2.10 Trefnu cyfarfodydd rhwng aelodau a swyddogion yr ymchwiliad â'r Aelodau Cabinet, Cyfarwyddwyr, Penaethiaid Adran a Phenaeth Gwasanaeth.

Ionawr 2013

2.11 Cynnal y cyfarfodydd a dadansoddi'r wybodaeth

2.12 Llunio'r adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol

## 3 PRIF SYLWADAU

Egwyddor Sylfaenol

3.1 Rydym wedi defnyddio thema ganolog y Dull Vanguard er mwyn rhoi strwythur i'r rhan yma o'r adroddiad sef i weld pa mor llwyddiannus y bu'r ddau gynllun peilot o ran symud o drefniant lle bo'r rheoli yn digwydd drwy orchmynion o'r 'top' i lawr (command and control) i arddull lle bo'r sefydliad yn rhoi blaenoriaeth i gynnal systemau sy'n cyflawni anghenion y cwsmer (systems approach) drwy rymuso swyddogion.

Ymwybyddiaeth o'r Egwyddor

3.2 Cafwyd tystiolaeth i ddangos bod aelodau a swyddogion a oedd wedi derbyn yr hyfforddiant ac wedi bod yn rhan o'r sesiynau cynllunio manwl gyda swyddogion Vanguard yn llwyr ymwybodol o'r egwyddor sylfaenol yma.

3.3 Dyma rai sylwadau a gafwyd gan rai o'r swyddogion:

*'Nid oes hierarchiaeth yn meddylfryd systemau. Nid oes arweinydd. Y nod yw ceisio rhannu tasgau rhwng aelodau'r prosiect. Nid oes rheolwyr o'r brig i lawr. OND Mae'n anodd rhannu a newid y rolau a'r diwylliant hierarchaidd'*

*'Mae'r system yn rhoi hawl i ni wneud unrhyw beth i helpu'r cwsmer- mynd at Reolwr y gwasanaeth (mewn gwasanaeth neu Adran arall) i wneud i rhywbeth ddigwydd.'*

3.4 O safbwynt yr Aelodau Cabinet, y Cyfarwyddwyr a'r Penaethiaid a gyfwelwyd, ni chafwyd datganiadau clir ganddynt yn y cyfweliadau yn nodi eu hymwybyddiaeth o'r egwyddor sylfaenol hon (a nodir yn 3.1 uchod). Er fel gwelir isod, fe gafwyd o leiaf ddau ddehongliad gwahanol ganddynt o'r ffordd orau i weithredu'r egwyddor yma. (3.9 – 3.11 isod)

3.5 Mae hyn yn codi cwestiwn sylfaenol am ddealltwriaeth rhai o'r uwch reolwyr o egwyddor sylfaenol meddylfryd systemau o roi'r cwsmer yn y canol ac mae'r un thema yn codi ei phen o dro i dro drwy gydol yr ymchwiliad.

3.6 Mae hyn yn gwbl ddealladwy mewn un ystyr fel rydym yn nodi ar ddechrau'r adroddiad gan fod hwn yn fater hynod o anodd i'w gyfarch yn effeithiol.

3.7 Serch hynny, mae'n werth nodi ar y pwynt yma bod yna ym marn aelodau'r ymchwiliad wahaniaeth sylweddol rhwng dealltwriaeth y swyddogion gweithredol a fu'n rhan o ddwyster y gwaith gwirio manwl ar ddechrau'r ddau brosiect gyda swyddogion Vanguard ar y naill law; a rhai o'r uwch reolwyr ac aelodau o Fwrdd y Cyngor (cyn Mai 2012) a gafodd gyflwyniadau a/neu sesiynau hyfforddi.

3.8 Yn benodol o safbwynt trefniadaeth hierarchiaeth fe gafwyd dau ddehongliad wanahol gan ddau o'r Cyfarwyddwyr.

3.9 Nodwyd gan un uwch swyddog mai bwriad meddylfryd systemau yw i rymuso'r swyddog sy'n ymwneud â'r mater o gyflawni er budd y cwsmer ac i ddelio gyda'r swyddog priodol ar ba lefel bynnag y bo o fewn y Cyngor.

3.10 Cafwyd awgrym gan uwch swyddog arall mai'r ffordd orau o weithredu fyddai i uchafu mater i sylw swyddog ar lefel uwch er mwyn i'r swyddog hwnnw ddelio gyda'r mater.

3.11 Mae aelodau'r ymchwiliad o'r farn mai'r dull cyntaf yw'r ffordd orau o weithredu drwy meddylfryd systemau hyd y bod modd ond lle nad yw hynny'n llwyddo, yna, bod angen i'r swyddog ar lefel uwch weithredu. Er mwyn i hyn lwyddo bydd angen sicrhau dealltwriaeth glir o'r egwyddor yma ar draws y Cyngor o leiaf ar lefel uwch reolwyr ac aelodau'r Cabinet. Hwy sy'n gyfrifol am gefnogi gweithredu o'r math yma ar draws y Cyngor ac yn eu hadrannau a gwasanaethau.

<u>Gweithredu'r Egwyddor Sylfaenol</u>

3.12 Cafwyd datganiadau clir gan y swyddogion yn y ddau brosiect eu bod yn ystyried eu bod wedi cael eu grymuso i weithredu'n unol â'r egwyddor yma; ond roedd dehongliad rhai o'r uwch reolwyr ynglŷn â phryd a sut i gefnogi gweithredu'n wahanol.

Dyma rai sylwadau a gafwyd:

*Mae meddylfryd systemau wedi newid ein ffordd ni o feddwl a rhai eraill. Nawr yr ydym yn meddwl o ochr y cwsmer.*

*Mae'r system yn rhoi hawl i ni wneud unrhyw beth i helpu'r cwsmer* OND *– mynd at Reolwr y gwasanaeth i wneud i rywbeth ddigwydd.*

*Nid oes arfer o weithredu trefn 'command and control' yn yr Uned. Swyddogion yn gorfod meddwl ar ein traed ac weithiau yn 'bownsio off' ein gilydd i ddod i fyny efo datrysiad i broblem cwsmer. Roeddem yn gwneud hyn cyn meddylfryd systemau.*

*Gweld y budd o weithredu drwy'r system ond angen cefnogaeth o'r top.*

*I ddechrau, cafodd swyddogion y prosiect wybod bod unrhyw beth o fewn rheswm yn bosibl – nid oedd angen poeni am gael adnoddau ychwanegol os oeddynt yn credu bod hynny'n angenrheidiol.*

3.13 Er bod llawer o waith da wedi cael ei gyflawni gan y ddau brosiect, mae angen cryn dipyn mwy o ddatblygiadau er mwyn gwireddu potensial meddylfryd systemau.

3.14 Fe wnaed sylwadau gan ddau uwch reolwr a oedd yn awgrymu bod adnabod problem neu rwystr ai osod 'ar y wal' yn ddigonol o safbwynt rôl meddylfryd systemau. Nid oedd aelodau'r ymchwiliad yn cael yr argraff bod y ffaith bod rhai ohonynt wedi bod 'ar y wal' am dros flwyddyn yn peri pryder iddynt.

3.15 Mae hyn yn peri peth pryder i aelodau'r ymchwiliad. Cafwyd yr argraff bod y ddau beilot wedi bod yn rhedeg yn rhy hir o lawer a bod hyn yn arafu gweithrediad er budd y cwsmer.

## 4 YR YMGYNGHORWYR

4.1 Roedd yr ymateb a gafwyd gan swyddogion yn tynnu sylw at y prif elfennau yma o ran yr ymgynghorwyr:

a) Teimlwyd bod diffyg gwybodaeth yr ymgynghorwyr am Ddigartrefedd, ac i raddau llai Cynnal a Chadw.
b) Teimlwyd bod gorfodaeth ar y swyddogion i fod yn bedantig hyd at syrffed ar ddadansoddi pob cam bach yn y system
c) Dwyster, hyd ac amseriad eu mewnbwn
ch) Nododd un o uwch swyddogion y Cyngor bod cael ei herio gan swyddogion Vanguard wedi bod yn brofiad anghyfforddus ar brydiau
d) Roedd swyddogion Vanguard yn effeithiol iawn yn cyfleu egwyddorion dull Vanguard heb unrhyw ddogfennau

4.2 Dyma rai o'r sylwadau gan swyddogion y Cyngor ynglŷn â'r uchod:

- *Roedd Vanguard yn dod o gefndir proffesiynol gwbl wahanol i ni, felly, nid oedd ganddynt ddealltwriaeth go iawn o gynnwys ein gwaith*
- *Vanguard ddim yn deall y gwasanaeth o gwbl ac fe gymerwyd amser hir i egluro gofynion statudol iddynt a rhoi ar ddeall iddynt bod pob person yn wahanol*
- *Dechreuodd y prosiect gyda chyfnod hir o ragarweiniad gyda'r ymgynghorwyr*
- *Roedd Vanguard efo'r tîm am amser hir ac yna'n diflannu'n sydyn gan adael y tîm ar ben ei hunain. Byddai wedi bod yn well petai'r trosglwyddo wedi digwydd yn raddol*
- *Byddai cynnal y peilot am gyfnod byrrach ond amser llawn yn well*
- *Buasai wedi bod yn well ac wedi cymryd llai o amser pe baem wedi cael ôl-lenwad o staff i ddarparu gwasanaeth tra roeddem ni wedi'n secondio i wneud y gwaith meddylfryd systemau*
- *Roedd tîm Vanguard gyda ni am bedwar neu bum niwrnod yr wythnos am fisoedd ac wedyn cawsom ein gadael ar ein pennau ein hunain. Roedd y cyfnod arweiniol yn rhy hir.*
- *Roedd swyddog o Vanguard yma am dri diwrnod am gyfnod o 6 mis*

## 5 CAMAU'R DULL VANGUARD

5.1 Mae'r rhannau nesaf o'r adroddiad yn nodi tystiolaeth a gafwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth, partneriaid ac aelodau'r Bwrdd/Cabinet a swyddogion gweithredol o safbwynt cyflawni'r dair elfen a nodir gan ddull Vanguard i astudio'r sefydliad o safbwynt y cwsmer ac i'w ail-gynllunio i ddarparu gwell gwasanaeth i'r cwsmer:

- Gwiriad (Check)
- Cynllunio (Plan)
- Gweithredu (Do)

5.2 <u>Gwiriad</u> (Check)
Casglu gwybodaeth o <u>beth</u> mae'r system bresennol yn ei wneud; a <u>pham</u> bod y system yn gwneud hyn.

<u>Beth yw Pwrpas y system?</u>

5.3 Roedd swyddogion y ddau gynllun peilot i weld yn glir ynglŷn â phwrpas y ddwy system:

- *<u>Digartrefedd</u>:*

*Cynorthwywch fi*

- *i ddatrys fy mhroblem/tenantiaeth er mwyn fy atal rhag bod yn ddigartref*
- *i ddod o hyd i dŷ/cartref ffoddiadwy a pharhaol (Cyfeiriwch fi at yr arbenigwyr all gynorthwyo i ddatrys fy mhroblem)*

- *Cynnal a Chadw*
  *Ein pwrpas cyntaf oedd*
  - *Pan fyddag yn torri, trwsiwch fi a chadwch fi'*

  *Adolygwyd hyn yn ddiweddarach er mwyn ehangu y cylch gorchwyl i gynnwys Eiddo i gyd. Erbyn hyn ein pwrpas yw:*
  - *Mae gennyf broblem gyda'm adeilad – helpwch fi*

Beth yw natur y galw gan y Cwsmer?

5.4 Yn achos y Cynllun Peilot Cynnal a Chadw Adeiladau, roedd rhestr ar gael o'r holl adeiladau o fewn Arfon a oedd yn rhan o'r Cynllun. Fe ystyriwyd bod y rheolwyr safle ar gyfer pob un o'r adeiladau yma yn gwsmeriaid.

5.5 Yn achos y Cynllun Peilot Digartrefedd, nid oedd rhestr o gwsmeriaid mor glir. Y farn oedd mai'r bobl digartref oedd y cwsmeriaid ac nad oedd modd ystyried rhestr ohonynt ar gyfer y Cynllun yma.

Derbyniwyd y sylw canlynol gan Tai Eryri: *"Ni fyddwn fel arfer yn clywed am sylwadau am y Gwasanaeth Digartrefedd gan y bobl digartref gan fod gennym asiantaethau fel GISDA yn y 'canol' rhyngom ni a'r Uned Digartrefedd".*

Natur y Galw

5.6 Rhoddir cryn bwyslais gan Vanguard ar edrych yn fanwl ar yr elfen yma. Mae hyn yn golygu yn y rhan yma o'r broses i hel gwybodaeth a data ynghyd er mwyn deall beth yw natur y galw. Dyma'r diffiniad:

*Customer demand is generally much more consistent and predicatable than is perceived. Therefore assembling precise data on the real nature of demand is **invaluable** for designing better processes.*

5.7 Mae'r ffaith bod hyn yn cael ei ystyried yn gam 'amhrisiadwy' o safbwynt y dull Vanguard yn teilyngu tipyn o sylw felly.

5.8 Yn achos y ddau gynllun fe welwyd tystiolaeth glir bod gwaith manwl wedi'i wneud i ddadansoddi'r galw o safbwynt y galwadau a dderbyniwyd. Mae'r ddau gynllun yn dangos ffigyrau hynod o debyg o safbwynt y gwahaniaeth rhwng *Failure Demand* a *Value Demand*.

5.9 Diffiniadau Vanguard

*Failure Demand – Demand caused by a failure to do something or to do something right for the customer.*

*Value Demand: This is demand that you do want. This comes from customers who are requesting new services and updating accounts. It is the reason the organisation exists.*

5.10 Roedd ffigwr Digartrefedd fel a ganlyn:

19 Hydref 2010
Failure Demand – 32%
Value Demand – 30%
(ar y gweill - 38%)
30 Ebrill 2012
Failure Demand – 19.5%
Value Demand – 80.5%

5.11 Nid oes ffigwr gan Cynnal a Chadw ar gyfer dechrau'r cynllun
Y ffigwr a gafwyd yn ystod yr Ymchwiliad oedd
Failure Demand – 20%
Value Demand – 80%

5.12 Mae hyn yn ymddangos fel gwelliant cymharol o safbwynt meddylfryd systemau ac yn fater y dylid llongyfarch y ddau gynllun peilot arno am fod hyn yn ychwanegu gwerth i'r cwsmer a dinasyddion Gwynedd drwy wneud defnydd gwell o adnoddau.

5.13 Barn aelodau'r ymchwiliad yw bod angen asesu'r galw ymhellach gan obeithio bod y gwaith cychwynnol a wnaed gan yr ymchwiliad i adnabod natur y galw gan y cwsmer yn faes allweddol sydd angen sylw manwl buan cyn medru gwneud asesiad llawn o lwyddiant y Cynlluniau Peilot o safbwynt adnabod natur real y galw gan y cwsmer.

5.14 Rydym hefyd o'r farn y byddai'n fuddiol i'r Cynllun Digartrefedd ystyried bod y sefydliadau y maent yn cydweithio â nhw o fewn y Cyngor a thu allan yn gwsmeriaid neu o leiaf yn bartneriaid iddynt o safbwynt y gwaith yma, ac y byddai'n fuddiol i gael eu barn fel cwsmeriaid neu bartneriaid.

5.15 Er bod y ddau gynllun peilot yn ystyried bod y gwasanaeth wedi gwella i'r cwsmer yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, nid oedd tystiolaeth gennym ni o'r ymchwiliad i ddangos bod y gwasanaeth wedi gwella i'r cwsmer dros gyfnod y ddau gynllun peilot. Rydym ar ddeall bod peth gwybodaeth ac adborth ar berfformiad ar gael gan

y ddau gynllun sy'n awgrymu fel arall. Awgrymwn y byddai'n fuddiol i'r Aelod Cabinet ystyried yr wybodaeth i gyd yn ofalus.

5.16 Yn wir, roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd yn awgrymu bod y sefyllfa wedi dirywio o safbwynt cael adborth a chyfathrebu gyda'r cwsmer neu bartner. Dyma rai enghreifftiau:

Cynnal a Chadw
*Dim cyfathrebu'n digwydd efo ni nawr.*
*Dim yn cysylltu'n aml*
*Gweld colli'r gwasanaeth blynyddol gan yr archwiliwr – ddim yn gwybod pwy i gysylltu â nhw nawr.*
*Ond hefyd*
*Rydym yn cael cyngor ac adborth gan y Tîm Ymyrraeth*

Digartrefedd
*Os oes anfodlonrwydd gan Adran Ddigartref am ------------ neu fel arall ------------- am Adran Ddigartref – ein bod yn nodi a thrafod achosion unigol fel y gallwn fynd i'r afael gydag unrhyw rwystr di-angen heb oedi.*
*Ond hefyd*
*Yn cydweithio'n dda gyda swyddogion yr Adran Dai*

5.17 Yn gyffredinol, roedd yn ymddangos i aelodau'r Ymchwiliad nad oedd unrhyw gyswllt wedi'i wneud yn benodol gan y ddau gynllun peilot i ofyn i gwsmeriaid neu bartneriaid beth oedd eu hanghenion wrth weithio ar adnabod natur y galw.

5.18 Mae hyn yn codi peth amheuaeth am werth y deunydd crai cychwynnol i'r ddau brosiect. Efallai bod cyfle wedi'i golli fan hyn.

Gallu (Capability)

*5.19* Diffiniad Vanguard: *A record of performance over time and an analysis of the variation in results.*

5.20 Er mwyn dadansoddi'r rhan yma, roeddem yn chwilio am dystiolaeth bod y ddau gynllun peilot yn glir ynglŷn â:

- Pa wybodaeth perfformiad oedd ei angen o safbwynt gwasanaethu'r cwsmer
- A oedd yr wybodaeth ar gael
- Beth oedd y dadansoddiad yn dangos

5.21 Nid oedd tystiolaeth bod yr wybodaeth a oedd ei angen ar gael yn hwylus o safbwynt y cwsmer a chynllunio gwasanaeth i gyfarch y galw yna.

5.22 Er enghraifft yn y Cynllun Cynnal a Chadw fe welwyd bod gwybodaeth am ymweliadau gan gontractwyr ar gael yn rhywle ond nad oedd yn cael ei ddefnyddio wrth asesu'r galw am wasanaeth.

Dyma rai sylwadau a wnaed:

*Monitro galwadau am ddiffygion yn y gorffennol (ee cofnodi tap sy'n gollwng sawl gwaith yn arwain at angen amlwg i edrych ar broblem yn wahanol.) Mae'r wybodaeth yma wastad wedi bod ar gael ond nid oedd yn cael ei ddefnyddio oherwydd nad oedd targedau yn gofyn am yr wybodaeth.*

*Rydym yn cael trafferth gyda mesurau i asesu llwyddiant a'r angen i uno gyda mesurau llywodraeth – e.e. un mesur yn unig yn Ffynnon (System Rheoli Perfformiad) sy'n werthfawr i ni.*

5.23 Nodwyd gan yr Uned Digartrefedd bod cyfran sylweddol o fesuryddion perfformiad yn amherthnasol i'r cwsmer. Roedd hyn yn llyncu amser. Dyma sylw ganddynt hwy fel enghraifft:

*Nid yw o help ein bod yn gorfod adrodd yn chwarterol ar fesuryddion cenedlaethol ar system Ffynnon …..Nid yw'r mesuryddion cenedlaethol o ddefnydd i'r gwasanaeth.*

5.24 Yn achos y ddau brosiect nid oedd tystiolaeth i ddangos bod y swyddogion wedi cael mewnbwn i broses cynllunio busnes y Cyngor (Cylch Cyflawni).

5.25 Barn aelodau'r Ymchwiliad ar hyn yw:

- Mae gan y swyddogion nifer o syniadau ynglŷn â pha wybodaeth sydd ei angen
- Er bod peth gwybodaeth yn cael ei gasglu nid ydyw ar gael i'r swyddogion
- Oherwydd hyn mae'n anodd gwneud dyfarniad ynglŷn â'r sefyllfa ond mae peth gwelliant wedi bod.

<u>Flow – how does the work work</u>

5.26 Gwnaed dadansoddiad manwl iawn ar yr elfen yma. Mae'n ymddangos mai dyma lle gwariwyd y rhan fwyaf o egni ac ymdrech. Ceir nifer o enghreifftiau o waith trylwyr a manwl iawn.

Dyma ddwy brif enghraifft o rai o'r sylwadau a wnaed

Cynnal a Chadw
*Roedd y dasg (cymryd galwad am waith a'i gwblhau) yn cynnwys 248 o brosesau! Wedi mynd drwy hyn o'r gwaelod i fyny gostyngodd nifer y prosesau i 114….11 o gamau yn unig a nodwyd a oedd yn angenrheidiol i gwblhau'r dasg yn llwyddiannus mewn gwirionedd.*

Digartrefedd
*Prosesau dianghenraid yn bodoli nad oeddem wedi sylweddoli arnynt cynt. Enghraifft – Pan fo person yn symud dros dro i hostel yr oedd angen cwblhau ffurflen ar gyfer y Gwasanaeth Budd-dal ac angen cwblhau yr un ffurflen eto os oedd y person yn symud ystafell oddi fewn i'r hostel neu symud dros dro i hostel arall.*

5.27 Er bod rhai elfennau gwerthfawr iawn wedi dod i'r amlwg yn y rhan yma, nid yw aelodau'r ymchwiliad yn siwr os oedd angen gwario gymaint o amser gyda'r elfen yma.

Amodau'r System (System Conditions)

5.28 Pam bo'r system yn ymddwyn fel hyn?

5.29 Mae'r ddau gynllun peilot wedi cael llwyddiant sylweddol yn yr elfen yma o'r gwaith. Yn gryno, mae *amodau'r system* yn weithgareddau gwastraffus sy'n llyncu amser ond nid ydynt yn ychwanegu gwerth i'r cwsmer. Yn wir, gallant waethygu'r gwasanaeth i'r cwsmer.

5.30 Yn aml mae *amodau'r system* yn faterion sy'n cael eu 'gorfodi' ar y system gan rywun arall ac fel arfer rhywun y tu allan i'r cynllun sy'n medru eu datrys. Mae rhain yn cynnwys mesuryddion, targedau, archwiliadau, systemau TG, ymddygiad uwch reolwyr a rheolwyr, gofynion a strywthur sefydliadol, rheolau a gweithdrefnau.

5.31 Unwaith eto, fel gyda'r elfen Galw a Chwsmer, mae'r dull Vanguard yn nodi bod deall *amodau'r system* yn gwbl allweddol.

5.32 Yn wahanol i'r elfen Cwsmer/Galw, yn yr achos yma, mae aelodau'r Ymchwiliad yn meddwl bod y ddau gynllun peilot wedi mynd i'r afael â'r elfen yma'n drylwyr iawn.

5.33 Mae'r Cynllun Digartrefedd yn nodi 98 o faterion gyda 36 ohonynt yn dal heb eu datrys.

5.34 Mae'r Cynllun Cynnal a Chadw yn nodi 36 o faterion gyda 26 ohonynt yn dal heb eu datrys.

5.35 Cafwyd gwelliant sylweddol o safbwynt adnabod materion er budd y cwsmer ond bod angen cyflymu'r gweithredu.

Meddwl

5.36 Mae'r cam yma'n cael ei ddisgrifio yn y dull Vanguard fel – '*Underlying assumptions about how the work is managed*.'

5.37 Mae hyn yn ymwneud â diwylliant y sefydliad o safbwynt rhai daliadau ac arferion o safbwynt rheoli a llywodraethu.

5.38 Nid oedd yn ymddangos i ni bod yr elfen yma wedi cael ei gyfarch gan y ddau gynllun peilot. Felly, fe drefnodd yr Ymchwiliad i gyfweld â'r Aelodau Cabinet ac Uwch Reolwyr perthnasol i gychwyn ar y gwaith yma.

5.39 Ym marn aelodau'r Ymchwiliad, mae hwn yn fater sydd angen cryn amser a sylw cyn neu wrth ehangu'r gwaith ar draws y Cyngor.

5.40 Fe gafwyd rhai sylwadau a oedd yn tystiolaethu'r angen i roi sylw manwl i'r elfen yma, a rhai arwyddion positif bod rhai aelodau a swyddogion yn dechrau deall eu rôl allweddol o safbwynt meddylfryd systemau.

5.41 Yn achos un o'r uwch swyddogion ac aelod cabinet, roedd yn amlwg nad oeddent wedi ystyried un o'r materion a oedd wedi cael ei adnabod fel amod system sylweddol gan un o'r prosiectau.

5.42 Cafwyd sylw positif gan un o'r uwch swyddogion a oedd yn awgrymu 'shifft' mewn 'meddwl' drwy ei bod yn holi swyddogion mewn gwasanaethau eraill os oedd gweithgaredd yn achosi rhwystr iddynt i wella gwasanaethau i'r cwsmer ac wedi gosod dangosydd perfformiad.

5.43 Prif neges y dull Vanguard ar gyfer yr elfen *Gwirio* yw ei fod yn darparu modd i arweinwyr y sefydliad i astudio ei sefydliad fel system. Prin yw'r dystiolaeth bod hyn wedi digwydd i raddau derbyniol ar draws y Cyngor ar hyn o bryd a bod angen i hyn gael ei gofleidio wrth ehangu'r gwaith ar draws y Cyngor

5.44 Cynllunio a Gweithredu
Ceir manylion am amryw o enghreifftiau positif o waith ail-ddylunio'r gwasanaethau er gwell er mwyn gwireddu buddiannau i'r cwsmer. Yn ogystal, mae nifer o faterion datblygol sydd angen sylw.

Mae'r ddwy ran olaf o'r Adroddiad yn crynhoi'r materion yma yn adrannau 6 a 7 – Prif Ganfyddiadau a Phrif Argymhellion.

## 6 PRIF GANFYDDIADAU'R YMCHWILIAD

6.1 Nod yr ymchwiliad oedd cyfarch y tri phwynt isod:

**a)** **Beth oedd effaith** y ddau gynllun peilot yn Gwasanaethau Cynnal a Chadw Adeiladau (Tîm Ymyrraeth) a'r Gwasanaeth Digartrefedd **ar bobl Gwynedd**
**b)** A ydyw wedi **gwella gwasanaeth i ddefnyddwyr?**
**c)** A ydyw wedi gwireddu **arbediad?**

a) Beth oedd yr effaith ar bobl Gwynedd?

6.2 Nid oes pwrpas amlhau geiriau yn fan hyn. Daeth yn glir i aelodau'r ymchwiliad bod cyfarch y mater yma mewn cwta chwe mis gyda'r adnoddau prin a oedd gennym yn ormod i'w ddisgwyl.

6.3 Yn syml iawn nid ydym mewn sefyllfa i ddatgan barn ar yr elfen yma. Os ydi aelodau'r Pwyllgor Craffu yn ystyried bod angen cyfarch yr elfen yma o'r gwaith, ein awgrym yw bod angen comisiynu gwaith trylwyr gan ymgynghorwyr allanol neu ei gyflwyno er ystyriaeth gwaith y Panel Trigolion.

6.4 Yn ein barn ni mae hi'n gynamserol i wneud hyn ar hyn o bryd.

b) A ydyw wedi gwella gwasanaeth i ddefnyddwyr?

Digartrefedd

6.5 Nid oes sylwadau cwbl bendant ynglŷn â, "a welwyd gwelliant ers cyflwyno meddylfryd systemau neu beidio". Mae'r farn yn amrywiol. Y marc allan o ddeg oedd 6.6 allan o 10.

Dyma rai sylwadau a gafwyd gan gwsmeriaid a phartneriaid:

Heb weld gwahaniaeth ers y drefn 'systems thinking' gael ei weithredu ond ddim yn sicr chwaith…

Wedi cymryd rhan yn y drafodaeth efo'r Uned Ddigartrefedd ar feddylfryd systemau ac mae ________ wedi edrych ar wella eu systemau hwythau hefyd drwy 'Lean'. Deall y cysyniad. Y syniad yw ein bod yn gwneud mwy dros y ffôn ond nid yw'n gweithio'n berffaith eto.

Cynnal a Chadw

6.6 Nid oes datganiad clir gan y cwsmeriaid yma chwaith. Er mae peth canfyddiad gan y cwsmeriaid bod y gwasanaeth wedi dirywio. Eto, mae'r marc allan o ddeg yn eithaf da. Y marc allan o ddeg oedd 6.

Dyma rai sylwadau a gafwyd gan gwsmeriaid a phartneriaid:

- *Dim yn berthnasol – Pennaeth (Cartref) ond wedi bod mewn swydd ers blwyddyn*
- *Wedi dirywio – mwy o waith papur, mwy aradeg*
- *Prif wendid y gwasanaeth yw diffyg cysondeb – weithiau mae e-bost yn cael ei anfon yn cydnabod cais am waith atgyweirio, ond dro arall nid yw hyn yn digwydd. Mae rhai tasgau'n cael eu gwneud yn gyflym, ond dim bob tro.*
- *Dim gwahaniaeth ond mwy o waith papur/gweinyddol*

Mae gwybodaeth gan y gwasanaeth yn nodi bod bodlonrwydd y 'cwsmer' wedi cynyddu'n sylweddol i 91% yn seiliedig ar gwestiynau gwahanol a ofynnwyd ganddynt. Mae'n amlwg felly bod angen gwyntyllu'r holl wybodaeth yn ofalus.

c) <u>A ydyw wedi gwireddu arbediad</u>?

6.7 Nid yw'n glir eto beth yw maint arbedion ac effaith hyn ar Strategaeth Ariannol y Cyngor.

6.8 Mae aelodau'r ymchwiliad o'r farn bod angen rhoi cynllun clir yn ei le i dracio'r wybodaeth er mwyn adnabod beth yw maint y gwariant ac unrhyw arbedion sydd yn deillio o'r cynllun.

6.9 Mae'n gynamserol, felly, i wneud asesiad o safbwynt gwireddu arbediad.

7 PRIF ARGYMHELLION A CHYFLEOEDD I WELLA

7.1 Mae aelodau'r Ymchwiliad yn argymell y dylid ymestyn y cynllun ar draws y Cyngor:

**<u>Argymhelliad 1</u>**
**Mae aelodau'r Ymchwiliad yn argymell ein bod yn ymestyn Meddylfryd Systemau ar draws y Cyngor**

7.2 Mae'r llyfr '*Delivering Public Services that Work – Volume2'* gan John Seddon a Charlotte Pell yn nodi:

'*The method provides **leaders** with the means to study their organisation as a system and, on the basis of the knowledge gained, to re-design their services to improve performance and drive out costs*

Dyma'n gryno ydi prif amcan meddylfryd systemau. Fel nodwyd ar gyfer Cyngor Castell Nedd Port Talbot ar ddechrau'r adroddiad yn

pwynt 1.9 …*there may be need for some of the fundamentals of the system to be challenged*…. Ym marn yr Ymchwiliad mae hwn yn gyfrifoldeb aruthrol ar Aelodau'r Cabinet ac Uwch Reolwyr i'w wireddu.

Nid oes disgwyl bod hyn yn cael ei gyflawni'n llawn mewn cyfnod oes dau gynllun peilot, ac roedd yr Ymchwiliad yn falch o weld bod rhai enghriefftiau effeithiol o weithredu gan yr uwch reolwyr yn barod. Ystyriwyd serch hynny, bod cryn dipyn o ffordd i fynd er mwyn gwella eu rôl. Rydym o'r farn bod angen rhoi'r blaenoriaeth cyntaf i gyfarch yr angen yma.

Mae perygl bod swyddogion yn gwyro oni bai bod y Pennaeth Adran yn cadw golwg i arwain y tîm ac i'w gadw ar y llwybr.

**Argymhelliad 2**
**Sicrhau dealltwriaeth drwyadl yr Aelodau Cabinet ac Uwch Reolwyr o egwyddorion Meddylfryd Systemau er mwyn gwireddu'r potensial i ail-gynllunio gwasanaethau'r Cyngor er budd y cwsmer**

7.3 Amser i gyflawni

Roedd gwaith ac arddeliad y Cyfarwyddwyr, Penaethiaid a'r swyddogion gweithredol yn y ddau gynllun peilot dros fuddiannau Meddylfryd Systemau'n galondid mawr i aelodau'r Ymchwiliad.

Roedd eu hymroddiad yn llwyr i'r gwaith, ond fe nodwyd gan swyddogion y ddau gynllun bod cyfnodau sylweddol o straen a morál isel. Oni bai am ymroddiad arbennig y Cyfarwyddwyr, Penaethiaid a swyddogion, mi allai'r ddau gynllun peilot fod wedi dymchwel yn fuan.

**Argymhelliad 3**
**Darparu cefnogaeth lawn i gynnal y 'day job' tra bo'r swyddogion yn gweithio ar gynllun meddylfryd systemau.**

7.4 Roll-in

Dyma ddiffiniad Vanguard:
*A method to scale up a change to the whole organisation that was successful in one area. Change is not imposed. Instead each area needs to learn how to do the analysis of waste for themselves and devise their own solutions. This approach engages the workforce and produces better, more sustainable solutions.*

**Argymhelliad 4**
**Rydym yn argymell gwneud hyn trwy daro balans rhwng gwneud y gwaith yn fewnol a chael mewnbwn allanol ac annibynnol yn ôl yr angen.**

7.5 Natur Galw y Cwsmer

Nid oedd yn amlwg i ni yn yr Ymchwiliad bod y ddau gynllun wedi mynd i'r afael ag asesu gwir natur y galw gan y cwsmeriaid. Roedd y prif bwyslais i weld yn hytrach ar yr elfen *Flow – how does the work work.*

Ychydig o sylwadau a gafwyd gan y cwsmeriaid ar ran y defnyddiwr (end user) . Er bod hon yn elfen arbennig o anodd i'w gyfarch, rydym o'r farn bod angen rhoi sylw i hyn. Fe nodwyd gan un o swyddogion yr Uned Digartrefedd fel hyn:

*Mae cwsmeriaid yn derbyn gwell gwasanaeth. Canfuwyd bod pobl sydd wedi cael lle i fyw yn rhoi atebion positif yn holiadur canfod barn am y gwasanaeth*

Er bod gwybodaeth meintiol a data hanesyddol yn werthfawr, ym marn aelodau'r Ymchwiliad mae dadansoddi a thrafod yr union wybodaeth – e.e. o bosibl recordio galwadau ffôn, ymweld a chynnal cyfarfodydd a sgyrsiau gan gwsmeriaid a phartneriaid a'u dadansoddi'n fanwl yn weithgaredd sy'n haeddu ystyriaeth.

**Argymhelliad 5**
**Bod yr wybodaeth a gafwyd gan y cwsmeriaid a'r partneriaid yn cael ei ystyried yn drylwyr er mwyn asesu natur y galw a gwir anghenion y cwsmer.**

7.6 Amodau System

Roedd y materion a godwyd gan y ddau gynllun yn ffordd effeithiol dros ben o adnabod y prif faterion sy'n teilyngu sylw ar lefel corfforaethol.

Mae'r holl gwsmeriaid a phartneriaid a gyfwelwyd â hwy yn y maes digartrefedd i weld yn positif iawn o ran parodrwydd i gydweithio, ond bod cryn dipyn o ddiflastod o safbwynt arafwch gweithredu ar lefel strategol. Er mae'n ymddangos bod ychydig o symud yn y cyfeiriad yma. Dyma rai o'r prif bwyntiau a nodwyd:

- *Nid yw'r Strategaeth Tai yn ddigon manwl – mae angen nodi'n glir beth yw'r anghenion o ran llety yn yr ardal.*

- *Angen arweiniad clir gan Uned Strategol y Cyngor.*
- *Ni chafwyd mewnbwn i'r Cynllun Gwella Canol Trefi*
- *Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw fiwrocratiaid sy'n effeithio ar y gwasanaeth*

Mae aelodau'r Ymchwiliad yn ystyried bod hwn o bosibl yn gyfle i ddatblygu trefniadau adrodd ar berfformiad i aelodau'r Cyngor ar gyflawniad y Cyngor er budd trigolion Gwynedd. Rydym o'r farn bod lle i wyntyllu hyn ac yn cynnig y gallai'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol dderbyn adroddiadau chwe misol cryno yn nodi cyflawniad ar yr amodau system yn y ddau gynllun peilot.

**Argymhelliad 6**
**Bod y mesuryddion priodol yn cael eu hystyried yn ofalus er mwyn medru asesu llwyddiannau a phroblemau gyda gweithredu'r cynllun ar draws y Cyngor gan adrodd ar unrhyw faterion o bryder i'r Cabinet.**

7.7 Cyflymu'r Newid

Cafwyd unfrydedd barn gan yr holl ran-ddeiliad a'r ymgynghorwyr bod y gwaith yn y ddau gynllun peilot wedi cymryd gormod o amser. Nid yw'n gwbl glir i ni beth oedd y rhesymau am hyn, ond mae'n hanfodol sicrhau bod gwelliant yn y cyfeiriad yma wrth ymestyn y gwaith ar draws y Cyngor.

**Argymhelliad 7**
**Mae'r broses hyd yn hyn wedi bod yn rhy araf. Mae'n hanfodol sicrhau bod y gwaith yn mynd rhagddo yn gyflymach yn y dyfodol.**

7.8 Cyllid

Rydym o'r farn bod peth cyfiawnhad dros y ffaith nad oes gwybodaeth fanwl ar gael o safbwynt manylion am gostau ac arbedion yn sgil y ddau gynllun peilot ond yn pwysleisio bod angen cyflwyno trefniadaeth gytunedig ar fyrder ynglŷn â sut i adnabod a thracio'r wybodaeth yma'n fanwl a chlir.

**Argymhelliad 8**
**Argymhellir bod gwaith yn cael ei wneud ar fyrder i asesu costau'r cynllun er mwyn adnabod beth yw maint y gwariant ac unrhyw arbedion sydd wedi deillio ohono hyd yn hyn ac i ystyried tafluniad dros gyfnod oes y Cyngor yma.**

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **CORFFORAETHOL** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **19 Gorffennaf 2012** |
| **TEITL** | **MEDDYLFRYD SYSTEMAU** |
| **AWDUR** | **Gareth James**<br>**Rheolwr Aelodau – Cefnogi a Chraffu** |
| | |
| **PWRPAS** | • **Gwneud sylwadau a chwestiynu'r Awdur**<br>• **Penderfynu sefydlu Ymchwiliad Craffu neu beidio**<br>• **Os am sefydlu Ymchwiliad - Penodi aelodau i'r Ymchwiliad** |

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL | |
| YMCHWILIAD CRAFFU – CRYNODEB SGOPIO | |
| | |
| PWNC DAN YSTYRIAETH | MEDDYLFRYD SYTEMAU |
| CYFEIRNOD | YMCH 0.01 |
| Grŵp AELODAU ARWEINIOL<br>o’r Pwyllgor Craffu | 1<br>2<br>3<br>4<br>5<br>6 |
| TRACIWR<br>Aelod o’r Grŵp sy’n gyfrifol am gadw gweddill aelodau’r Pwyllgor yn y pictiwr ac i dracio’r argymhellion. Bydd hyn yn caniatau i’r Pwyllgor asesu effaith yr Ymchwiliad ymhen 12 mis. | |
| SWYDDOG ARWEINIOL<br>Swyddog annibynnol sydd wedi’i benodi i sicrhau bod yr Ymchwiliad yn rhedeg yn esmwyth. Bydd y swyddog yma’n gweithredu fel Rheolwr Prosiect; yn sicrhau eglurder y tasgau, cadw’r amserlen, hwyluso cyfarfodydd, cynghori tystion ac yn cyfleu datblygiadau yn ôl i Aelodau’r Ymchwiliad Craffu’n gyson yn seiliedig ar dystiolaeth | Gareth James |
| CEFNOGAETH<br>Swyddogion annibynnol a fydd yn cefnogi ac yn gweinyddu’r Ymchwiliad. | Ann Roberts - Ymchwil<br>Eirian Roberts - Gweinyddydd |

Drafft

1 <u>Cefndir</u>

Gwnaed addewid gan y Cyngor yn 2009 i wella gwasanaethau i gwsmeriaid drwy ddefnyddio *Meddylfryd Systemau*.

Mae *Meddylfryd Systemau* yn gynllun cydnabyddiedig ym maes datblygu busnes sy'n anelu i symleiddio prosesau busnes wrth gynnal safon neu wella gwasanaeth i'r cwsmer.

Byddai disgwyl i hyn wireddu arbediad.

2 <u>Pwrpas yr Ymchwiliad</u>

Bydd yr Ymchwiliad yn anelu at ateb y prif gwestiynau yma:

a) Beth oedd effaith y ddau gynllun peilot yn *Gwasanaethau Cynnal a Chadw Adeiladau* a *Gwasanaeth Digartrefedd* ar bobl Gwynedd?
b) A ydyw wedi gwella gwasanaeth i ddefnyddwyr?
c) A ydyw wedi gwireddu arbediad?

3 <u>Effaith</u>

Os byddwn yn llwyddiannus, bydd yr Ymchwiliad Craffu yn:

- Llunio argymhellion clir yn seiliedig ar dystiolaeth i'r Aelod Cabinet eu hystyried
- Adnabod potensial y gyfundrefn i gwrdd yn well ag anghenion defnyddwyr gwasanaeth
- Asesu dulliau eraill/amgen o greu'r newidiadau angenrheidiol yn ein gwasanaethau gyda'r un budd a nodir yn 2 uchod
- Rhoi ystyriaeth briodol i unrhyw rwystrau cytundebol, economaidd, cyfreithiol ar waith y Cyngor yn y maes
- Dangos yn glir sut i wella'r gyfundrefn o fewn gofynion 2 uchod.

4 <u>Cyfnod yr Ymchwiliad</u>

| | |
|---|---|
| Cychwyn yr Ymchwiliad | 10 Medi 2012 |
| Diwedd yr Ymchwiliad | 21 Rhagfyr 2012 |
| Adroddiad i sylw'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol | 31 Ionawr 2013 |
| Adroddiad oddi wrth Craffu at y Weithrediaeth | Chwefror 2013 |

Draft

5 Rhaglen (yn ogystal â'r isod, bydd gofyn i'r aelodau wneud gwaith ychwanegol rhwng y cyfarfodydd)

| | |
|---|---|
| Cyfarfod 1 | Gosod y Cyd-destun |
| | Cyflwyniad gan yr Aelod Cabinet Adnoddau a'r Cyfarwyddwr |
| | Nodiadau Briffio'r aelodau gan Swyddogion Craffu:<br>• Cyllidebau<br>• Staffio<br>• Eiddo<br>• Canlyniadau Perfformiad<br>• Proffiliau Defnyddwyr<br>• Deddfwriaeth berthnasol<br>• Canlyniad ymgynghori<br>• Crynodeb o unrhyw adroddiadau archwilio mewnol ac allanol<br>• Cyswllt gyda'r Strategaeth Gymunedol<br>• Cyswllt gyda Chynllun Strategol y Cyngor<br>• Cynlluniau/strategaethau/polisïau perthnasol<br>• Enghreifftiau o sefydliadau eraill sy'n darparu'r gwasanaeth yma |
| | Sesiwn Cynllunio<br>Ystyried y sefyllfa a pha gamau i'w cymryd nesaf |
| | |
| Cyfarfod 2 | Casglu sylwadau gan Bartneriaid Mewnol ac Allanol<br>• Aelod Cabinet Gofal Cwsmer<br>• Pennaeth Gofal Cwsmer<br>• Aelod Cabinet Tai<br>• Cyfarwyddwr<br>• Uwch Swyddog Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Cyfarfod 3 | Casglu sylwadau gan staff a defnyddwyr gwasanaeth:<br>• Staff gweithredu rheng flaen<br>• ……<br>• |
| Cyfarfod 4 | Casglu sylwadau gan ddefnyddwyr allanol ac arbenigwyr<br>• ------------<br>• ----------- |
| | Sesiwn Cynllunio<br>Ystyried y wybodaeth a gafwyd hyd yn hyn a chynllunio gweddill y rhaglen waith |

Draft

| | |
|---|---|
| Cyfarfod 6 | Ymweliadau<br>• Cyngor Castell nedd Port Talbot<br>• Cyngor Blaenau Gwent<br>• |
| Cyfarfod 7 | Dadansoddiad<br>• Ystyried a chrynhoi'r wybodaeth a phrofiadau<br>• Cwestiynnu'r Aelod Cabinet ymhellach<br>• Cytuno'r prif argymhellion ar gyfer yr adroddiad a'r ffordd ymlaen |
| | |
| | Pwyllgor Craffu i ystyried yr adroddiad drafft a'r argymhellion |

Drafft

## Cwestiynau i Staff a Rheolwyr yr Uned Digartrefedd a Cynnal a Chadw Eiddo

### Cwestiynau i'w gofyn ar yr ymweliadau â'r Unedau Gwasanaeth – er arweiniad

1. Beth oedd yn digwydd cynt? Beth sy'n digwydd rŵan ac ydi pethau wedi gwella?
2. Ym mha ffordd mae'r gwasanaeth wedi newid? Rhowch enghreifftiau.
3. Beth oedd effaith y peilot? Ydi o wedi gwella'r gwasanaeth yn eich barn chi? Rhowch enghreifftiau.
4. Beth, yn eich barn chi, sydd wedi gweithio'n dda a beth sydd ddim wedi gweithio cystal?
5. Beth oedd yn dda a beth oedd yn ddrwg am y system Vanguard?
6. Beth, yn eich barn chi, oedd yn anodd ei newid?
7. Ai system reoli arall yw hon?
8. Ydi'r gwasanaeth wedi gwella? Ydych chi'n fwy effeithiol? Ydi morâl wedi gwella ymysg y staff? Beth yw'r dystiolaeth o hynny?
9. Ydych chi'n teimlo eich bod wedi'ch grymuso?
10. Ydych chi'n hyderus i weithredu y tu allan i'r terfynau?
11. Ydych chi wedi llwyddo i ddatrys mater er budd y cwsmer heb drafod yn gyntaf gyda'ch rheolwr? Rhowch enghraifft.
12. Ydi'r peilot wedi bod yn help i chi adnabod rhwystrau?
13. Sut fedrwch chi ddatrys y rhwystrau?
14. Ydych chi'n cael mwy o foddhad o'ch gwaith yn dilyn y newid yn y dull o weithio?
15. Ydi pawb yn gwybod beth yn union yw pwrpas y gwasanaeth?
16. Ydych chi'n glir beth yw anghenion y cwsmer?
17. Os ydi pobl yn dweud eu bod angen tŷ mewn ardal benodol, ydych chi'n holi pam? (*cwestiwn i'r Gwasanaethau Digartrefedd yn unig*)
18. Faint o alwadau 'value' a 'failure' ydych chi wedi gael?

## Cwestiynau i Staff a Rheolwyr yr Uned Digartrefedd a Cynnal a Chadw Eiddo

19. Oes yna effaith ar adran arall o newid y ffordd o weithio? Beth oedd yn digwydd cynt?

20. Ydi'r peilot wedi gwireddu arbediad yn eich adran chi, neu mewn adran arall? (*cwestiwn i'r rheolwyr yn unig*)

21. Rheolwr -Ydi'r peilot wedi bod yn help i wybod os ydi'r gwasanaeth yn rhoi gwerth am arian?

22. Rheolwr - a yw eich mesuryddion gwasanaeth wedi newid i ganolbwyntio ar fesur allbynnau a gwerth y gwasanaeth i'r defnyddiwr? (Symud o fesuryddion rheoli staff a chost I ganolbwyntio ar y defnyddiwr)

23. Oes yna rywbeth arall yr hoffech ei ddweud wrthym?

## Cwestiynau i Gwsmeriaid y Gwasanaeth Cynnal a Chadw Eiddo

Cwestiynau i'r Cwsmeriaid – er arweiniad

1 Fedrwch chi nodi'n gryno pam eich bod yn defnyddio'r gwasanaeth?

2 Ai'r Ysgol neu'r Cyngor sy'n edrych ar ôl y gyllideb adeiladau/cynnal a chadw?
2a Ydych chi wedi cadw eich cyllideb cynnal a chadw?
2b A oes gennych Gytundeb Lefel Gwasanaeth?

3 Ai'r Ysgol neu'r Cyngor sy'n talu am:
3a – Bwyler newydd?
3b - Tap newydd?

4 Tua pha mor aml fyddwch chi'n cysylltu â'r gwasanaeth?

5 Ydi'r gwasanaeth fel arfer yn medru datrys eich problem neu ymholiad yn llwyddiannus:
- Fedrwch chi nodi un enghraifft arbennig o dda a phryd ddaru hyn ddigwydd?
- Fedrwch chi nodi un enghraifft o fethu delio'n foddhaol gyda'ch cais neu ymholiad a phryd ddigwyddodd hynny?
- A oes enghraifft diweddar le mae'r gwasanaeth wedi gorfod dod yn ôl fwy nag unwaith i edrych ar yr un broblem?

6 Ydych chi wedi gweld gwellhad neu ddirywiad yn y gwasanaeth yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf? Beth yw'r rhesymau am hynny?

7 Beth yn eich barn chi yw prif rinweddau'r gwasanaeth ar hyn o bryd?

8 Beth yn eich barn chi yw prif wendidau'r gwasanaeth ar hyn o bryd?

9 Sut y gellir gwella'r gwasanaeth?

10 Fedrwch chi roi sgôr i'r canlynol fel mae ar hyn o bryd (lle bod 1 cyfwerth â Difrifol a 10 yn Ardderchog)?

10a Y Gwasanaeth yn gyffredinol
10b Pa mor gyflym mae problem yn cael ei datrys.

11 Fedrwch chi nodi unrhyw faterion eraill?

## Cwestiynau i’r Defnyddwyr ar Wasanaeth yr Uned Digartrefedd

Cwestiynau i’r Defnyddwyr – er arweiniad

1 Wnewch chi nodi’n gryno sut yr ydych chi’n defnyddio Gwasanaeth Digartrefedd Cyngor Gwynedd? A pha mor aml?

2 A ydych chi wedi gweld gwahaniaeth yn y gwasanaeth yr ydych yn derbyn gan y Gwasanaeth Digartrefedd ers 2 flynedd yn ôl? Beth yw’r rhesymau am y gwahaniaeth?

3 Faint o aml fyddwch chi’n gorfod cysylltu â’r Gwasanaeth Digartrefedd fesul achos? Ydi’r amlder fesul achos yn llai na ddweder 2 flynedd yn ôl?

4 Ydych chi’n gweld o’n hawdd cydweithio efo’r Gwasanaeth Digartrefedd i geisio cartrefu pobl yn gynt?

5 Ydi pobl ddigartref yn rhoi sylwadau ar Wasanaeth Digartrefedd Cyngor Gwynedd i chi?

6 Beth yn eich barn chi yw prif rinweddau’r gwasanaeth ar hyn o bryd?

7 Beth yn eich barn chi yw prif wendidau’r gwasanaeth ar hyn o bryd?

8 Sut y gellir gwella’r gwasanaeth?

9 Fedrwch chi roi sgôr i’r canlynol fel mae ar hyn o bryd (lle bod 1 cyfwerth â Difrifol a 10 yn Ardderchog)?

9a Y Gwasanaeth yn gyffredinol
9b Pa mor gyflym mae pobl ddigartrefedd yn cael eu cartrefu.

10 Oes yna rywbeth arall yr hoffech ddweud wrthym?

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **Pwyllgor Craffu Corfforaethol** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **31 Ionawr 2013** |
| **TEITL YR EITEM** | **AGENDA WLEDIG** |
| **AELOD CABINET** | **Y CYNGHORYDD JOHN WYNN JONES** |
| **PWRPAS** | **I YSTYRIED SEFYDLU YMCHWILIAD CRAFFU** |
| **DOGFENNAU** | **Yn amgaeedig mae sylwadau a wnaed gan aelodau yng nghyfarfodydd:**<br><br>**Pwyllgor Ardal Arfon**<br>**Pwyllgor Ardal Dwyfor**<br>**Pwyllgor Ardal Meirionnydd**<br>**Pwyllgor Craffu Corfforaethol** |

# PWYLLGOR ARDAL ARFON, 12.12.12

## 5. AGENDA WLEDIG

a) Cyflwynwyd - adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Corfforaethol, y Cynghorydd Dyfrig Jones, yn amlinellu cefndir y gwaith a wnaed hyd yma gan y Pwyllgor Craffu mewn perthynas â'r balans rhwng gwasanaethau gwlad a thref yng Ngwynedd.

b) Eglurodd fod aelodau'r Pwyllgor Craffu wedi datgan yr awydd i astudio'r mater yma. Fodd bynnag, gwelwyd bod 'balans rhwng gwasanaethau gwlad a thref' yn bwnc cwbl pen agored, ac yn sgil hyn rhoddwyd ystyriaeth i faterion penodol oedd yn hawlio sylw.

Yn ogystal, ystyriwyd y mater gan yr Aelod Cabinet – Economi a gwnaed trefniadau iddo gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol.

c) Cyfeiriwyd at adroddiad 'Arolwg Ynni yn y Gymuned', a ddarparwyd ar gyfer Ynni Llŷn gan Gritten Management. Trefnwyd i'r Pwyllgor Craffu gael cyflwyniad ar gynnwys yr adroddiad, ac ystyriwyd y byddai'n cynnig cymorth i ddeall un o'r heriau sy'n bodoli yn un o ardaloedd Gwynedd.

Nododd y Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu bod nifer fawr o elfennau'n perthyn i'r maes ac mai bwriad y Pwyllgor Craffu Corfforaethol oedd cael barn aelodau'r Pwyllgorau Ardal ynglŷn â pha fath o faes fyddai'n addas i ymchwilio iddo'n drylwyr.

ch) Mynegwyd barn gan yr aelodau a phwysleisiwyd bod angen diffiniad o'r rhaniad rhwng gwlad a thref o ran dylanwadu ar sut y dylid craffu'r gwaith.

d) Gwnaed awgrymiadau pellach parthed materion eraill allai fod yn rhan o ymchwiliad, a thynnwyd sylw penodol at y canlynol:-

- tlodi gwledig a dulliau o ymdrin â hyn;
- costau ynni a'r modd mae incwm isel yn effeithio ar hyn yn arbennig o safbwynt yr henoed;
- costau teithio a'r modd mae hyn yn effeithio ar drigolion mannau diarffordd;
- dirywiad yn yr iaith Gymraeg a'r cyswllt rhwng hyn a diboblogi mewn rhai ardaloedd;
- y galw am ynni a'r amrywiol ddarpariaethau sydd ar gael.

dd) Nodwyd y bydd band eang o raddfa uchel yn weithredol yng Ngwynedd yn y dyfodol agos a bod hyn yn ddatblygiad cadarnhaol gan y byddai'n ei gwneud yn bosib i ychwaneg o fusnesau gael eu sefydlu mewn unrhyw ran o'r Sir.

**PENDERFYNWYD argymell y dylid rhoi blaenoriaeth i'r angen i gael diffiniad o'r rhaniad rhwng gwlad a thref pe byddai'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol yn penderfynu craffu'r 'balans rhwng gwasanaethau gwledig a threfol.'**

## 6. AGENDA WLEDIG

a) Cyflwynwyd adroddiad ‘Arolwg Ynni yn y Gymuned’, a ddarparwyd ar gyfer Ynni Llŷn gan Gritten Management.

b) Cyfeiriodd y Cadeirydd at y wybodaeth a gafwyd yn yr adroddiad yn nodi bod cymaint â 38% o holl dai Gwynedd yn dioddef o dlodi tanwydd. Nododd fod hyn yn frawychus ac efallai’n gondemniad ar y Cyngor am ganiatau i’r sefyllfa gyrraedd safon o’r fath.

c) Eglurodd y Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu bod y mater wedi cael ystyriaeth y Pwyllgor Craffu Corfforaethol. Yn sgil hyn gwnaed cais i gael barn Pwyllgorau Ardal gyda’r bwriad o gael eitem graffu i’r hyn mae’r Cyngor yn ei gyflawni yn y maes yma a sut gall y craffwyr gyfrannu at y datblygiadau.

ch) Mynegwyd barn wahanol gan aelodau, a nodwyd :-

- gellid annog trigolion i fanteisio ar gyfleodd i arbed costau tanwydd drwy fanteisio ar gynlluniau insiwleiddio a gwelliannau cyffelyb;
- na fyddai cynlluniau insiwleiddio’n addas ar gyfer pob tŷ, a bod rhai arbenigwyr o’r farn bod cynlluniau o’r fath yn achosi tamprwydd;
- bod modd chwilota am delerau mwy cystadleuol mewn perthynas â chostau trydan;
- gallai ymdrechion i chwilota am gyflenwyr trydan gwahanol greu trafferthion, yn arbennig i’r henoed;
- bod angen ystyried gwir gostau tanwydd amrywiol mewn manylder ac osgoi’r peryg o weld cyfraddau’r aelwydydd sydd yn dioddef tlodi tanwydd yn cynyddu;
- dylid manteisio ar y cyfle i leisio barn parthed Canllawiau Cynllunio Atodol ar dyrbeini gwynt oedd o fewn cyfnod ymgynghorol;
- byddai cymorth syml, megis cynlluniau i gael ffenestri newydd, fod yn llawer llai trafferthus na datblygiadau megis paneli solar;
- bod ardaloedd gwledig, megis Llŷn, yn wynebu costau uwch na mannau eraill oherwydd costau cludo tanwydd;
- bod rhai cynlluniau paneli solar a thyrbeini gwynt yn cael eu datblygu’n breifat a rhai eraill ar gyfer cymunedau a bod angen ystyried a oedd unrhyw wahaniaeth rhyngddynt o ran costau i’r defnyddwyr;
- na ddylid canolbwyntio ar rai ardaloedd gwledig yn unigl;
- dylid ystyried camau allai’r Cyngor ei gymryd ar gyfer hybu corff lleol fyddai’n gweithredu’n gydweithredol;
- byddai’n bosib defnyddio dulliau o hysbysebu, megis drwy’r cylchgrawn ‘Newyddion Gwynedd’, i annog cymdeithasau i weithio’n gydweithredol er mwyn sicrhau telerau pryniant tanwydd gwell;
- gellid ystyried ardal beilot ar gyfer hyn;
- gallai’r sefyllfa waethygu yn sgil newidiadau mewn perthynas â budd-daliadau;

d) Eglurodd y Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu mai bwriad y Pwyllgor Craffu Corfforaethol oedd ystyried 3 ardal gyferbyniol o fewn y Sir – sef un ardal wledig, un ardal drefol a thrydedd ardal sydd o natur ganolig.

Yn dilyn camau cychwynol, bwriedir cynnal ymchwiliad craffu i’r Agenda Wledig fel y gellir diffinio’n glir beth yw bod yn y dair ardal ac ystyried a yw

polisiau'r Cyngor yn adlewyrchu hynny wrth iddynt gael eu datblygu yn y Cynllun Strategol.

**PENDERFYNWYD datgan cefnogaeth i fwriad y Pwyllgor Craffu Corfforaethol i gynnal Ymchwiliad Craffu i'r Agenda Wledig.**

**AGENDA WLEDIG**

**Cyflwynwyd:** Adroddiad "Arolwg Ynni yn y Gymuned" a ddarparwyd ar gyfer Ynni Llyn gan Gritten Management.

Adroddodd y Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu yn ystod gweithdai'r tri Phwyllgor Craffu a gynhaliwyd ym mis Mai 2012 sef ar ddechrau tymor y Cyngor newydd, fe godwyd y mater uchod mewn dau o'r Pwyllgorau Craffu. Nodwyd bod y thema yn eithaf dyrys o ran sgôp ac yn dilyn trafodaeth yng nghyfarfod Paratoi'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol yn ddiweddar fe awgrymwyd cyflwyno'r uchod i'r tri Phwyllgor Ardal i gael eu barn ynglŷn â'r meysydd fyddai'n addas i'w hymchwilio'n bellach.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol:

(a) bod cyfle i greu ynni i bentrefi a chymunedau ar ffurf melinau gwynt a fyddai yn ei dro yn buddsoddi arian yn ôl i'r Cymunedau. Fodd bynnag yr anhawster mwyaf yn yr ardal hon ydoedd sicrhau caniatâd cynllunio o fewn y Parc Cenedlaethol. Pwysleisiwyd yr angen i gynnal pentrefi cefn gwlad a chadw'r boblogaeth ynddynt ac i sicrhau ffyniant a chadw'r Iaith Gymraeg.

(b) Ategwyd y sylwadau uchod gan sawl Aelod ond pwysleisiwyd yr angen i fuddsoddi yn yr is-adeiladedd, ac yn arbennig uchafu rhwydwaith band-eang yn enwedig i gymunedau cefn gwlad.

(c) Deallir bod Tai Cymunedol Gwynedd wedi gosod paneli egni solar ar dai ac y byddai'n fuddiol i wybod beth a wneir o'r ynni sydd dros ben.

(d) Mewn ymateb i'r uchod ac o ystyried bod mwyafrif o ardal Meirionnydd o fewn y Parc Cenedlaethol, nododd Aelod rhaid bod yn wyliadwrus o fuddsoddi mewn paneli egni solar oherwydd mai'r cwmnïau cynhyrchu sydd yn elwa ac ategodd y dylid buddsoddi yn y rhwydwaith band-eang cyflym diweddaraf gan ei fod yn greiddiol i fusnesau. Dylai'r Cyngor fod yn rhagweithiol yn hyn o beth.

(e) Bod costau byw mewn ardaloedd gwledig yn uwch o lawer na'r gost cyfartaledd cenedlaethol oherwydd prisiau uchel tanwydd, sustemau gwresogi, a.y.b.

(f) Bod yr adroddiad yn fuddiol dros ben ac yn amlwg y gall cymunedau elwa. Deallir bod cynllun tlodi tanwydd NYTH gan Lywodraeth Cymru yn anelu at leihau nifer y cartrefi sydd mewn tlodi tanwydd a gwneud cartrefi'n gynhesach a defnyddio tanwydd yn fwy effeithiol. Dylid hyrwyddo'r cynllun hwn i bob Cymuned gan ei fod wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i drigolion sydd wedi elwa o'r cynllun yn barod o fod wedi cael cysylltiad i nwy, pecynnau insiwleiddio, a.y.b.

(g) Tra bod yr agenda wledig yn ei chyfanrwydd yn ymateb i anghenion rhai cymunedau, bod angen diffinio beth yw ardal wledig, o ystyried bod rhai cymunedau wedi dirywio'n sylweddol. Teimlwyd efallai nad oedd gan Gyngor Gwynedd y grym i gymryd mesurau perthnasol a bod angen defnyddio ei ddylanwad i bwyso ar y llywodraeth a chwmnïau i fuddsoddi mewn is-adeiladedd er mwyn medru creu gwaith yn lleol a rhoi bywyd i bentrefi cefn gwlad a chynnal ysgolion.

(h) Bod angen trafod pa fath o waith y dylid denu i'r ardal ac yn sicr hyrwyddo cynlluniau arfaethedig megis Parth Menter Trawsfynydd / ail-agor safle maes awyr Llanbedr i greu gwaith yn lleol. Crybwyllwyd y syniad blaenorol o drafod y posibilrwydd i adeiladu carchar o faint addas ar gyn safle Tonfannau, Tywyn.

(i) Pwysleisiwyd bod rhaid i'r Cyngor ei hun sicrhau bod swyddi yn cael eu llenwi yn y Swyddfeydd Ardal pan maent yn dod yn wag. Gwnaed cais yn y gorffennol i Adran gyfan gael ei ail-leoli yn y Swyddfa Ardal ym Mhenarlâg yn ogystal â chais am y nifer o staff sydd wedi gadael y Swyddfa Ardal ers ad-drefnu llywodraeth leol yn 1996.

(j) Y dylid hyrwyddo cynlluniau hydro fel y gweithredir ym Maentwrog a Blaenau Ffestiniog i'r ardal yn hytrach na chynlluniau tyrbeini gwynt ac y byddai hyn yn fodd o greu swyddi parhaol.

(k) Y dylid cymryd i ystyriaeth elfennau a drafodir gan y Gweithgor ac a gynhwysir yng Nghynllun Cyflogaeth Meirionnydd.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad a gofyn i'r Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu cyfleu'r sylwadau uchod fel rhan o'r cyfeiriad i'r ymchwiliad craffu i'r Agenda Wledig.**

# PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL, 13.12.12

**3. YR AGENDA WLEDIG**
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd John Wynn Jones**

Gofynnwyd i'r pwyllgor adnabod y materion i ymchwilio iddynt a phenderfynu ar y ffordd orau o weithredu ar hynny.

(a) Derbyniwyd cyflwyniad gan Bethan Gritten, Gritten Management, ar Astudiaeth, a gomisiynwyd gan YnNi Llŷn, o Ddefnyddio Ynni yn Aberdaron, Botwnnog, Tudweiliog ac Enlli.

Eglurwyd bod yr astudiaeth yn enghraifft o ddarn o waith sy'n edrych ar un elfen o amddifadedd yng nghefn gwlad a'i bod gerbron y pwyllgor er gwybodaeth er mwyn rhoi syniadau i'r aelodau ynglŷn â sut i symud ymlaen â'r gwaith o graffu'r agenda wledig.

Diolchwyd i Bethan Gritten am ei chyflwyniad manwl a diddorol.

Yna rhoddodd Arwel Jones esboniad cryno o'r rhesymau dros gomisiynu'r gwaith gan egluro mai'r nod oedd casglu tystiolaeth o'r problemau y bu pobl yn sôn amdanynt ar lawr gwlad ers blynyddoedd.

(b) Rhoddwyd cyfle i'r aelodau holi Bethan Gritten ac Arwel Jones.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y sylwadau cyffredinol a ganlyn:-

- Bod y cyflwyniad yn adlewyrchu'r problemau sy'n gyffredin i bob ardal wledig.
- Y dylai pobl gael gostyngiad treth am orfod defnyddio cerbydau mewn ardaloedd gwledig.
- Y dylai'r Cyngor annog pobl i fanteisio ar gynlluniau sydd ar gael i'w helpu i leihau effaith eu biliau tanwydd, megis Nyth.
- Ei bod yn anodd ar bobl yn y canol, sy'n methu fforddio'r gost uchel o insiwleiddio eu tai, ond yn anghymwys i dderbyn grantiau.
- Bod angen cynorthwyo pobl i ostwng eu biliau tanwydd, e.e. drwy newid cyflenwyr, prynu trydan dros y we a pheidio talu gyda siec.
- Bod angen i ardaloedd gwledig feithrin yr agwedd o fod yn hunangynhaliol.
- Y gwelid manteision cadw'r boblogaeth yn sefydlog o safbwynt bod yn hunangynhaliol, ond na ddylid ymdrechu i gael mwy o bobl i mewn i'r ardaloedd gwledig oherwydd effaith hynny ar yr iaith Gymraeg.
- Nad oedd yn rhaid derbyn nad oes dyfodol i gefn gwlad.
- Yn hytrach na disgwyl i bobl deithio o gefn gwlad at y gwasanaethau, dylid mynd â'r gwasanaethau hynny at y bobl, e.e. fan yn mynd o gwmpas yn cyfuno nifer o wasanaethau. Dylid hefyd hwyluso mynediad pobl at wasanaethau drwy gynlluniau megis cynllun cludiant cymunedol 'O Ddrws i Ddrws' ym Mhen Llŷn.
- Bod rhaid gwneud popeth i gadw pobl ifanc yn yr ardaloedd gwledig.
- Bod llawer o henoed yn gadael yr ardaloedd gwledig oherwydd eu bod dros awr i ffwrdd o'r ysbyty lleol.
- Bod y problemau y cyfeirir atynt yn yr astudiaeth yn effeithio ar bawb, ond yn dwysau po bellaf mae pobl yn byw o'r canolfannau.

(c) Derbyniwyd cyflwyniad llafar gan y Cynghorydd Dyfrig Jones, yr Is-gadeirydd, yn crynhoi sylwadau Pwyllgor Ardal Arfon ar y mater. Nododd:-

- Bod y pwyllgor ardal yn gytûn bod tlodi tanwydd a thlodi trafnidiaeth yn fater o bryder ac yn fater o bwys a bod angen edrych yn fanylach ar yr her o fyw yng nghefn gwlad o gymharu â'r dref.
- Bod rhaid bod yn ofalus o safbwynt sut mae hyn yn ffitio i mewn gyda'r gwaith sy'n mynd rhagddo mewn rhannau eraill o'r Cyngor.
- Bod angen diffiniad o'r hyn a olygir gan 'wlad' a '*thref*' gan fod y ffordd mae pobl yn meddwl am wlad a thref yn cael ei lywio gan eu persbectif personol hwy.

Pwysleisiwyd mai'r nod yw sicrhau bod pawb yn y sir yn cael yr un cyfleoedd i ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor.

(ch) Derbyniwyd cyflwyniad llafar gan y Cynghorydd John Wynn Jones, Aelod Cabinet Economi, ar flaenoriaethau'r Agenda Wledig. Pwysleisiodd fod yr agenda wledig yn flaenoriaeth gan y Cabinet, ond bod rhaid sefydlu'r cyd-destun cywir gan fod yr agenda hwnnw yn gallu golygu rhywbeth gwahanol i unigolion gwahanol yn ôl eu sefyllfa. Yna manylodd ar wahanol brosiectau a mentrau'r Cyngor a chyrff eraill o safbwynt hybu'r agenda wledig a'r nod o sicrhau cymuned gynaliadwy. Cyfeiriodd yn benodol at:-

- Y Cynllun Datblygu ar y Cyd
- Gwaith Partneriaeth Amgylcheddol Gwynedd yn y Cynllun Tair Blynedd
- Gwynedd Werdd
- Gwynedd Ddigidol
- Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd
- Menter Eryri
- Ymgyrch Cadw'r Budd yn Lleol
- Cynlluniau Parcio am Ddim
- Ymgyrch Bywiogi Canol Trefi
- Cynlluniau Twristiaeth
- Gwaith Partneriaeth Economaidd Gwynedd
- Rhaglen Datblygu Gwledig

(d) Rhoddwyd cyfle i'r aelodau holi'r Aelod Cabinet.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y sylwadau cyffredinol a ganlyn:-

- Mewn ymateb i sylw'r Aelod Cabinet y gobeithid y byddai yna 'fibrespeed' digonol yn y rhan fwyaf o Wynedd erbyn tua mis Mawrth, nodwyd bod cyfrifoldeb ar BT i hysbysu pobl ynglŷn â'u rhaglen a gofynnwyd am gyflwyno cais i BT, drwy'r Cabinet, am wybodaeth ynglŷn â phryd mae band eang cyflym yn mynd i gyrraedd y gwahanol wardiau.
- Nodwyd pwysigrwydd rhoi profiadau da i ymwelwyr i'r ardal, e.e. toiledau safonol, ayb.
- Cyfeiriwyd at rai enghreifftiau penodol o ddiffyg gwasanaeth yn yr ardaloedd gwledig, megis gwasanaethau bws a gofal dementia.
- Nodwyd bod siopau'r stryd fawr dan anfantais gan fod cost yr unedau yn nhermau trethi busnes yn uwch nag ydyw i'r archfarchnadoedd mawr ar gyrion y trefi. Hefyd, 'roedd rhaid i gwsmeriaid y stryd fawr dalu am barcio tra bod modd i bobl barcio am ddim yn y canolfannau siopau. Mewn ymateb, nododd yr Aelod Cabinet

fod Llywodraeth Cymru yn edrych ar drethi busnes ar hyn o bryd ac y byddai yna sesiwn arbennig o Gabinet y Cyngor i edrych ar yr holl gyfundrefn barcio.

- Nodwyd y deellid bod Cyngor Gwynedd yn dechrau gosod dirwyon o £70 am barcio hanner metr o ymyl y palmant a phenderfynwyd gofyn am ymateb yr Aelod Cabinet Amgylchedd i hyn.

**PENDERFYNWYD sefydlu'r agenda wledig fel pwnc ar gyfer ymchwiliad craffu a phenderfynu ar gylch gorchwyl yr ymchwiliad yn y Cyfarfod Paratoi nesaf ar 19 Rhagfyr.**